Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 12 – Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

Sylwadau ategol

Mae'n amlwg os ydym o ddifri ynghylch ehangu Addysg Gymraeg, a'i darparu fel hawl sylfaenol i'r mwyafrif o blant Cymru, dylai pob ysgol newydd a sefydlir fod yn un cyfrwng Cymraeg.
--

Cwestiwn 13 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn yr adran hon ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (fydd yn gosod cyfeiriad i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol)?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae angen i'r cynllunio yma sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd o'r blynyddoedd cynnar a chyfraniad y Mudiad Meithrin hyd at Addysg Uwch a phwysigrwydd canolog Prifysgolion wrth hyfforddi siaradwyr a dinasyddion medrus yn y

Gymraeg, ac yn bwysicach na dim, athrawon y dyfodol. Mae'n bryder mawr cyn lleied o sylw sydd i'r sector Addysg Uwch a Phrifysgolion Cymru o ystyried eu lle canolog oddi fewn i'r ecosystem sylfaenol sydd angen i sicrhau iechyd ac adferiad iaith.

Cwestiwn 14 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Eto mae angen sicrhau cyfraniad y Prifysgolion fel cyfraniad canolog i'r cynllunio hwn, yn arbennig o ystyried bod y data cyfredol yn arddangos argyfwng sydd wedi bod yn hysbys ers tro o ran gweithlu addysgu'r dyfodol. Rhaid sicrhau bod maint y dasg yn cael ei adlewyrchu yn y Bil ac felly mae angen meddwl dwys ynghylch pa gamau deddfwriaethol sydd eu hangen i fynd i'r afael gyda hyn.

Cwestiwn 15 – Ydych chi'n cytuno bod y deilliannau a nodir ym mharagraff 82 yn parhau i gynnig ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae angen dybryd i gryfhau'r cynlluniau yma a'r strwythur o'u cwmpas felly mae cydosod y cynlluniau yn y modd hwn yn synnwyr cyffredin, fodd bynnag mae 5 mlynedd yn cyfnod weddol hir felly dylid sicrhau ffurf o asesu parhaol gan Lywodraeth y Senedd.

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Er bod y targedau'n bwysig, gallu Gweinidogion Cymru i graffu ar ymdrech yr awdurdodau lleol i fwrw targedau sydd yn hollbwysig fan hyn. Diffyg arweinyddiaeth gan awdurdodau lleol sydd wedi bod yn broblem sylfaenol ynghylch twf addysg Gymraeg felly rhaid wrth newid y diwylliant o oddefgarwch gan Lywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn.

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo'n briodol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Eto rhaid ystyried sut y mae'r Prifysgolion yn gallu cydweithio gyda'r Awdurdodau Lleol er mwyn hwyluso'r cynllunio a gwireddu.

Cwestiwn 20 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAu) a chynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 22 – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?

Mae angen y grym ar Weinidogion Cymru i ymyrryd lle bo hynny'n briodol, ac ymhellach na hynny mae angen meithrin diwylliant sydd yn arddel ac yn cefnogi ymyrraeth o'r fath, lle nad oes cynnydd mewn safonau.

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae hyn yn cynnwys ategu'r negeseuon o safbwynt dewisiadau addysg uwch a gyrrfaol plant a phobl ifanc.

Cwestiwn 24 – Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

Sylwadau ategol

Mae yna rai cyfnodau amlwg yng nghylch bywyd plentyn lle y mae angen ffocysu'r hyrwyddo: genedigaeth, dewis gofal blynyddoedd cynnar, dewis ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, ac yna Prifysgol; rhaid wrth gefnogaeth yng nghyswllt pob un o'r cerrig milltir yma.

Cwestiwn 25 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Dylai fod yn hawl sylfaenol bod pob un yng Nghymru yn gallu cael mynediad at addysg o'r fath i ddysgu'r Gymraeg.

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 28 – Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 29 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yng nghyswllt yr egwyddor hwn eto mae'n boenus o amlwg nad oes ystyriaeth deilwng wedi cael ei rhoi i rôl y Prifysgolion yn y gwaith hwn, nid yn unig fel cartref i nifer o ganolfannau Dysgu Cymraeg, ond yn fwy penodol o ran y gwaith rydym yn cyfrannu o safbwynt darparu Addysg ar draws y pynciau. Yn y cyswllt hwn y mae angen llawer iawn mwy o sylw i waith y Prifysgolion ac ystyriaeth o sut y mae deddfwriaeth yn gallu cryfhau a chefnogi'r gwaith hwn trwy ehangu, dwyshau a gwella ein cynnig yn unol gydag amcanion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o drefniadau ariannu a'r hyn sy'n disgwylidiedig mewn cyfnewid am yr adnoddau, sydd ar hyn o bryd yn cael ei weinyddu trwy'r cynlluniau ffioedd a mynediad; yn enwedig o safbwynt yr angen i greu mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg, mae angen ystyriaeth ynghylch sut y mae Prifysgolion yn derbyn cymorth i wireddu'r amcanion ond hefyd sut y mae gosod y disgwyliadau addas arnynt. Yn y cyswllt hwn hefyd, er nad yn fater o ddeddfu o reidrwydd, rhaid dod a'r Rhwydwaith Seren i ben, ag eithrio o bosib cynnal y gefnogaeth ar gyfer myfyrwyr yn ymgeisio i Rydychen a Chaergrawnt, ac edrych eto ar y drefn ffioedd, er mwyn denu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i'n prifysgolion a'u perswadio i barhau gyda'u hastudiaethau trwy'r Gymraeg.

Cwestiynau o'r ddogfen 'Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Cwestiwn 30 – Ydych chi'n cytuno gyda'n dehongliad ni o'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau? A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwrmpas y newidiadau ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	✓	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	---	--	--------------------------

Sylwadau ategol

- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgolion Cymru
- Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Mudiad Meithrin

Cwestiwn 31 – Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?

Sylwadau ategol

--

- Awdurdodau Lleol
- Ysgolion
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Prifysgolion Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- AGC
- Mudiad Meithrin

Nid yw'r ddogfen yn ddigonol o safbwynt amlinellu'r trawsnewid sylweddol sydd ei angen, nac awgrymu'r cyllid perthnasol.

Cwestiwn 32 – Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Sylwadau ategol

Dylai fod cydnabyddiaeth yn y cyswllt hwn o'r risg na fydd digon o athrawon, ac ystyriaeth eto o rôl y Brifysgolion wrth sicrhau'r cyflenwad hwn mewn cydweithrediad gydag ysgolion a'r sector ehangach. ***Rhaid ystyried Prifysgolion Cymru yn rhan annatod o'n system addysg a chynllunio yn ôl yr egwyddor hwn.-***

Cwestiwn 33 – A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

-

Cwestiynau gorfodol

Cwestiwn 34 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a phaidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Os gwireddu'r cynigion yma, a'r argymhellion a ddaw gan nifer o unigolion a sefydliadau allweddol, gall gwneud gwahaniaeth sylweddol iawn i'r Gymraeg gan hyd yn oed gwirdroi crebachu a gwanychu parhaus yr iaith, a thrwy hynny symud ni'n agosach at gymdeithas lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 35 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

A oes angen ystyriaeth ynghylch a yw B2 yn lefel digonol o ran canlyniadau addysg cyfrwng Cymraeg?

Cwestiwn 36 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Hoffwn bwysleisio unwaith eto'r angen i sicrhau bod Prifysgolion Cymru yn cael lle teilwng o fewn y deddfu hwn er lles y Gymraeg a chynaliadwyedd y system addysg Gymraeg yn enwedig. Dylid cynnal ymgynghoriad uniongyrchol trwy'r Coleg Cymraeg i'r perwyl hyn er mwyn sicrhau ein bod ni oll yn creu'r fframwaith sydd ei hangen i wireddu amcanion y papur gwyn.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:





Ymgynghoriad ar y Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Ymateb Cymdeithas yr Iaith

Cyflwyniad

- 1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru.
- 1.2. Credwn fod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, beth bynnag eu cefndir, ac y dylai polisi addysg y Llywodraeth fod yn adlewyrchu hynny trwy anelu at roi'r iaith i bob plentyn yn y wlad.
- 1.3. Mae'r ffaith bod 80% o'n plant yn dal i gael eu hamddifadu o addysg cyfrwng Gymraeg yn warth cenedlaethol, gyda'r anghyfartaledd ar ei waethaf ymysg cymunedau difreintiedig, mudwyr a lleiafrifoedd ethnig. Am nad ydyn nhw'n dod yn rhugl yn Gymraeg, mae'n debygol y bydd y bobl ifanc yma'n cael eu hallgau o gyfleoedd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd am weddill eu bywydau.
- 1.4. Yn ogystal, mewn ardaloedd lle siaredir yr iaith gan fwyafrif y boblogaeth, mae nifer o bobl ifanc yn colli eu sgiliau iaith wrth fynd drwy'r system addysg oherwydd methiannau'r system 'ddwyieithog' a'r drefn asesu. Caiff hyn effaith negyddol ar y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- 1.5. Dangosodd ffigurau o Gyfrifiad 2021 bod canran y siaradwyr Gymraeg wedi disgyn, gyda gostyngiad penodol ymysg plant a phobl ifanc. Dangosodd ffigurau diweddaraf data CYBLD bod y ganran ar draws pob cyfnod dysgu sy'n derbyn addysg Gymraeg ddim ond wedi cynyddu 0.5% ers cynnal y Cyfrifiad diwethaf, sy'n dangos methiant llwyr y system presennol.
- 1.6. Mae effeithiolrwydd y system addysg i greu siaradwyr newydd yn gwbl ganolog ac allweddol i strategaeth iaith y Llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr: nid oes modd fforddio peidio â chyflawni yn y maes hwn. Mae tynged holl strategaeth y Llywodraeth yn y fantol, ac nid oes amheuaeth bod y system addysg bresennol yn gwbl anaddas i gyflawni'r twf mewn addysg cyfrwng Gymraeg sydd ei angen.
- 1.7. Mae'n amlwg ers blynyddoedd bod y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer addysg Gymraeg yn ddiffygiol, ac rydyn ni'n croesawu felly ymrwymiad y Llywodraeth i'w diwygio. Cyflwynwn ein sylwadau ac argymhellion ar y cynigion islaw.
- 1.8. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn ymgyrchu dros y blynyddoedd diwethaf am Ddeddf Addysg Gymraeg i Bawb fyddai'n symud y system addysg yng Nghymru, dros amser, at fod yn system sy'n darparu addysg cyfrwng Gymraeg i bob disgybl.
- 1.9. Rydym wedi cydweithio gydag arbenigwyr ym maes addysg, a Chymrawd Cyfraith Cymru, Keith Bush CB, i lunio [Deddf Addysg Gymraeg](#) fyddai'n cyflawni'r nod hwn, yn ogystal â'r diwygiadau eraill sydd eu hangen. Anogwn y Llywodraeth i fabwysiadu'r cynigion yn y Bil hwnnw yn eu cyfanrwydd os yw o ddifrif am sicrhau bod pob person ifanc yn tyfu i fyny yn siaradwr Gymraeg hyderus. Cyflwynir fersiwn derfynol y Bil a'r nodiadau esboniadol fel

atodlen i'r ymateb hwn, ac maent i'w gweld yn
cymdeithas.cymru/dogfen/deddfaddysggymraeg

Prif sylwadau

2.1. Mae'n prif argymhellion a sylwadau ar y papur gwyn fel a ganlyn:

- Mae'r cynigion yn y papur gwyn yn cynrychioli cam mawr i'r cyfeiriad cywir. Rydyn ni'n croesawu, yn benodol, y datganiad mai bwriad y ddeddf fydd sicrhau bod pob plentyn yn dod yn siaradwr Cymraeg hyderus.
- Rydyn ni'n croesawu hefyd y cynigion i Weinidogion osod targedau ar awdurdodau lleol o ran tyfu addysg cyfrwng Cymraeg; cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ymhob ysgol a gosod isafswm o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw ysgol; gosod targedau ar gyfer y gweithlu addysg; dyletswydd i ddarparu canolfannau trochi a chyfundrefn i arolygu cynnydd awdurdodau lleol.
- Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn y papur gwyn fel ag y maent yn mynd hanner ddigon pell tuag at ehangu mynediad i addysg Gymraeg i bob plentyn, ac ni fyddent yn sicrhau bod pob plentyn yn dod yn siaradwr hyderus.
- Mae yna wendid rhesymegol sylfaenol yn athroniaeth y Llywodraeth, sef nad oes unrhyw weledigaeth glir o le'r Gymraeg yng Nghymru'r dyfodol. Mae'r papur yn derbyn bod cynyddu'r nifer o blant sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg yn nod dymunol. Ond teg yw gofyn pam. Os mai mater o ddewis unigolyn yw gallu yn y Gymraeg, pam ddylai'r Llywodraeth osod nod o gynyddu'r ganran sy'n medru Cymraeg? Ar y llaw arall, os yw gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn sgil hanfodol ar gyfer bod yn ddinesydd Cymreig yn y dyfodol, oni ddylai'r Llywodraeth osod nod fod bod pawb yn meddu ar y sgil hwnnw?
- Mae'r papur gwyn yn datgan "*yn sylfaenol, rydyn ni am i bob disgybl ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol*" ond mae'r cynigion yn gwrth-ddweud y dyhead hwn gan eu bod yn golygu y bydd o leiaf 50% o ddisgyblion yn 2050 yn parhau i beidio derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ac nid oes chwaith gynllun clir a chredadwy i sicrhau y byddant yn dysgu'r Gymraeg fel arall gan nad oes sicrwydd y bydd un llwybr dysgu go iawn ac un cymhwyster Cymraeg i bob disgybl.
- Mae sawl man gwan yn y cynigion y mae'n rhaid eu cryfhau cyn cyflwyno'r Bil i'r Senedd.
Yn benodol:
 - Mae'r nod bod 50% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn rhy isel. Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau siaradwyr Cymraeg hyderus, ac felly dylid gosod nod bod 100% o blant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Dylai'r nod fod ar wyneb y Ddeddf derfynol, gyda thargedau statudol cenedlaethol a lleol dros amser yn nodi cerrig milltir ar hyd y daith.
 - Dylid datgan yn glir yn y Bil y bwriad y bydd pob ysgol, dros amser, yn cynyddu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn symud ar hyd y continwwm ieithyddol i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg.
 - Rhaid i'r tafllwybr a gynigir a'r targedau a osodir ar awdurdodau lleol fod yn statudol. Yn ogystal, dylid cyflwyno cyfundrefn ariannu newydd i awdurdodau lleol, gyda chymhelliannau ariannol clir yn gysylltiedig â'r targedau lleol a chyfundrefn gadarn i sicrhau cyflawniad.

- Rhaid cyflwyno un continwrm dysgu Cymraeg ac un cymhwyster TGAU Cymraeg iaith i bob disgybl, yn hytrach na chadw 'Cymraeg ail iaith' dan enw arall. Heb wneud hynny, fydd disgyblion sydd ddim mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ddim yn dod yn siaradwyr hyderus a bydd y drefn dysgu ac asesu yn tanseilio holl nodau ac athroniaeth y Bil.
- Rhaid i'r targedau o ran cynyddu cyfran y gweithlu sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn dargedau statudol ac uchelgeisiol, gan osod dyletswyddau ar Weinidogion, awdurdodau lleol a cholegau hyfforddiant cychwynnol athrawon.
- Mae'r cynnig i wahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd yn gam gwag ac yn wastraff adnoddau. Dylid sicrhau bod targedau pob awdurdod lleol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran addysg Gymraeg a'r hyn mae angen ei wneud i sicrhau cynnydd, ond rhaid datgan yn glir y nod mai Cymraeg fydd cyfrwng addysg pob ardal erbyn 2050.
- Dylid gosod rheol yn y Bil y bydd pob ysgol newydd yng Nghymru yn ysgol Gymraeg.
- Dylai'r ddeddf gynnwys targedau ynghylch darpariaeth addysg cyn ac ôl-statudol, a sicrhau bod y sectorau blynyddoedd cynnar ac addysg bellach yn symud at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bawb.
- Wrth weithredu'r Ddeddf, rhaid sicrhau adnoddau, cyllid, hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol i awdurdodau lleol, ysgolion a'r gweithlu addysg er mwyn cyflawni'r nodau yma. Dylai hyn gynnwys codi cyflogau gweithwyr addysg a gwella amodau gwaith er mwyn mynd i'r afael â phroblem denu a chadw gweithwyr yn y proffesiwn.
- Pryderwn yn benodol am y diffygion ym mholisi'r Llywodraeth o ran recriwtio a hyfforddi'r gweithlu addysg a chyflwyno un llwybr dysgu ac un cymhwyster i bawb. Heb fod y mesurau hyn mewn lle, caiff holl amcanion y Bil eu tanseilio ac ni fydd modd cyflawni'r weledigaeth mae'r Gweinidog yn ei hamlinellu o wlad lle bydd pawb yn dod yn siaradwyr hyderus. Rhoddwn sylw penodol i'r meysydd hyn yn adrannau 5 a 6.
- Pryderwn hefyd fod sawl agwedd o'r papur gwyn ei hun yn brin o fanylder, ac ambell i gynnig yn amwys. Ar y cyfan, nid yw'n gosod cynllun clir na fframwaith gryf ar gyfer dyfodol addysg Gymraeg, a rhaid ei gryfhau cyn cyflwyno Bil i'r Senedd.

Deddf Addysg Gymraeg Cymdeithas yr Iaith

- 3.1. Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith fersiwn terfynol ein Deddf Addysg Gymraeg, yn dilyn adborth a dderbyniwyd i ymgynghoriad ar fersiwn drafft a gyhoeddwyd fis Awst 2022. Mae'r ddeddf honno wedi'i hatodi fel rhan o'n hymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac ar gael i'w gweld yn cymdeithas.cymru/dogfen/deddfaddysggymraeg
- 3.2. Ein bwriad yw y gallai, ac y dylai, Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r ddeddfwriaeth hon yn ei chyfanrwydd fel model ar gyfer ei Bil Addysg Gymraeg ei hun. Mae'n gosod cynllun clir a chyraeddadwy er mwyn rhoi'r Gymraeg i bob plentyn yn y wlad.
- 3.3. Nod y ddeddf yw trawsffurfio'r gyfundrefn addysg i fod yn un drwyadl Gymraeg, dros gyfnod dichonadwy – sef erbyn 2050, er mwyn alinio gyda'r targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn honno. Elfen ganolog i hyn fyddai uno'r system addysg yng Nghymru, gan droi pob ysgol a choleg, dros gyfnod o amser, yn un sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cred y Gymdeithas mai dyma'r unig ffordd i sicrhau y bydd pob disgybl a myfyriwr yng Nghymru yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn hyderus ac felly yn medru cyfranogi'n llawn ym mywyd y genedl.

- 3.4. Cred y Gymdeithas hefyd ei bod yn hanfodol bod y Bil yn gosod dyletswyddau cyfreithiol clir ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Dylent ymgorffori targedau mesuradwy, y gall cydymffurfiaeth â hwy, pe byddai angen, gael ei phrofi gerbron y llysoedd.
- 3.5. Dyma amlinelliad o brif fesurau'r Ddeddf:
- Gosodir nod statudol, sef sicrhau mai'r Gymraeg fydd iaith addysg yng Nghymru erbyn 1 Medi 2050. Yn y cyd-destun hwn, mae 'addysg' yn cynnwys addysg mewn ysgolion a cholegau cyhoeddus a phreifat, addysg blynyddoedd cynnar, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ac addysg neu hyfforddiant ffurfiol sy'n rhan o gynllun prentisiaeth.
 - Gosodir dyletswydd statudol ar bob awdurdod cyhoeddus ym maes addysg i weithio tuag at y nod statudol, yn gyffredinol a thrwy gyflawni unrhyw ofynion penodol a osodir arnynt gan fframwaith statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
 - Diddymir cyfundrefn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a rhoddir fframwaith statudol o dargedau cenedlaethol a lleol yn ei lle.
 - Gosodir ar Weinidogion Cymru ddyletswydd i baratoi Fframwaith Addysg Gymraeg ('y fframwaith statudol') a fydd yn pennu'r camau y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod statudol. Bydd yn rhaid i'r fframwaith bennu camau ymarferol pendant, gyda thargedau clir a mesuradwy, a dyddiadau pendant ar gyfer cwblhau y camau hynny.
 - Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, arfer eu pwerau ariannol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r graddau y mae'r sawl a fyddai'n elwa o'r grant neu gymorth ariannol arall wedi gweithredu, ac yn debygol o weithredu, yn unol â'i ddyletswydd i sicrhau cyflawni'r nod statudol a gofynion y fframwaith statudol.
 - Bydd y fframwaith yn newid darpariaeth addysg o fod yn un sy'n gwahaniaethu rhwng ysgolion a cholegau ar sail iaith addysg i un sy'n gosod ysgolion a cholegau ar lwybr sy'n arwain at un system Gymraeg unedig. Bydd hefyd yn gosod rheol y bydd pob ysgol newydd yn un cyfrwng Cymraeg.
 - Rhaid i'r fframwaith gynnwys darpariaeth benodol mewn perthynas ag addysg blynyddoedd cynnar (a darpariaeth ragarweiniol i addysg felly, fel grwpiau chwarae) gyda golwg ar sicrhau darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob plentyn.
 - Rhaid i'r fframwaith gynnwys darpariaethau manwl a thargedau i sicrhau cynllunio gweithlu effeithiol, gan gynnwys athrawon, staff cynorthwyol, darlithwyr a gweithwyr blynyddoedd cynnar. Bydd rhaid asesu'r nifer o staff bydd eu hangen i gyflawni'r nod statudol, y sgiliau y bydd eu hangen arnynt, a sut y bydd y staff hynny'n cael eu recriwtio a'u hyfforddi. Bydd rhaglen lawn i ddatblygu sgiliau'r gweithlu presennol.
 - Bydd y fframwaith yn darparu ar gyfer sicrhau bod y drefn arholiadau bresennol, sy'n cynnig cymwysterau gwahanol 'Cymraeg' a 'Chymraeg Ail Iaith' yn dod i ben, ac yn sicrhau'r un cymhwyster Cymraeg ar gyfer pawb erbyn 2030 fan bellaf.
 - Bydd y fframwaith yn darparu ar gyfer rhwydwaith cynhwysfawr o ganolfannau trochi ar gyfer rhai sy'n ymuno â'r system addysg Gymraeg yn hwyr.
 - Cryfheir hawl disgyblion ysgol a myfyrwyr addysg bellach i allu teithio i ysgol neu goleg, gan estyn trefniadau teithio o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i gynnwys pawb sy'n gorfod teithio er mwyn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ac estyn trefniadau teithio i wneud addysg blynyddoedd cynnar yn Gymraeg yn hygyrch i bob plentyn.

- Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru gyflwyno'r fframwaith i'r Senedd, adrodd ar gynnydd yn flynyddol ac adolygu'r fframwaith bob pum mlynedd. Bydd Estyn yn arolygu cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol tuag at y nod.

Sylwadau manwl ar gynigion yr ymgynghoriad

Pennod 1: Gwneud y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ynghylch deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg

Gwneud y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol

- 4.1. Cynnig Cymdeithas yr Iaith oedd gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac rydym yn parhau i gefnogi'r targed. Mae'n amlwg bod gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae i gyrraedd y targed, ac nid yw'n cyflawni ar hyn o bryd.
- 4.2. Yn arwain at etholiad 2021 fe wnaethon ni gyhoeddi dogfen Mwy na Miliwn sy'n nodi: *'Nid yw agenda 'mwy na miliwn' yn cyfeirio'n bennaf at dargedau ar gyfer creu mwy na miliwn o siaradwyr (er y bydd angen canolbwyntio ar hynny yn ogystal) ond yn hytrach at ddyfnhau'r agenda drwy ganolbwyntio ar ddefnydd bob dydd o'r iaith yn ein cymunedau, ein gweithleoedd a'n gwasanaethau cyhoeddus, ac estyn y Gymraeg i bawb, nid y rhai ffodus yn unig.'*
- 4.3. Mae'n Maniffesto o 2022, Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg yn ategu hynny: *'Nid mater o ffigurau yn unig yw'r Gymraeg. Y gwir ddangosyddion fydd pobl ifanc yn gadael yr ysgol yn medru'r Gymraeg, yr iaith yn cael ei defnyddio yn naturiol ar draws pob maes a chymunedau Cymraeg hyfyw.'*
- 4.4. Felly, credwn y dylai egwyddor bwysig a mwy sylfaenol lywio'r ddeddfwriaeth a *'rhoi cyd-destun ac eglurder i'r hyn y mae'r Bil am gyflawni'*, yng ngeiriau'r papur gwyn: sef hawl pob plentyn yn y wlad i ddod yn siaradwr Cymraeg.
- 4.5. Credwn felly mai'r prif nod ddylai fod ar wyneb y Bil yw datgan y bydd Cymru'n symud tuag at addysg cyfrwng Cymraeg i bawb erbyn dyddiad penodol, a chynigiwn 2050 ar gyfer y dyddiad hwnnw.
- 4.6. Nid yw'n glir yn y papur pa 'ddarpariaethau' fydd yn y Bil mewn perthynas â'r targed o filiwn, heblaw datganiad y *'dylai Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol fod o dan ddyletswydd i roi sylw dyladwy i'r targed o filiwn o siaradwyr wrth arfer eu swyddogaethau yn y maes addysg'*. Mae hyn yn amwys ac yn llawer rhy wan o ystyried yr uchelgais a'r gweithredu sydd ei angen.
- 4.7. Dangosodd dadansoddiad ystadegol interim a gomisiynwyd gan Gymdeithas yr Iaith y byddai angen i 70% o ddisgyblion fod mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050 er mwyn cyrraedd y miliwn. Mae'r dadansoddiad [i'w weld yma](#). (*Noder mai ar sail ffigurau Cyfrifiad 2011 mae'r dadansoddiad, ac rydym yn bwriadu ei ddiweddarau yn dilyn Cyfrifiad 2021*).
- 4.8. Felly hyd yn oed os mai'r targed o filiwn fydd ar wyneb y Bil, nid yw anelu at addysg cyfrwng Cymraeg i 50% o ddisgyblion erbyn 2050, fel y cynigir yn y papur gwyn, yn ddigonol i gyrraedd y nod.
- 4.9. Addysg Gymraeg yw'r ffordd orau o sicrhau rhuglder. Sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg yw un o egwyddorion sylfaenol y Bil, felly mae parhau i

amddifadu 50% o ddisgyblion rhag derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn tansellio'r egwyddor honno.

- 4.10. Heb gynllun clir a manwl, ac yn benodol, heb sefydlu un continwmm dysgu ac asesu go iawn, nid yw'n glir sut fydd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn dod yn siaradwyr hyderus fydd yn rhan o'r miliwn mae'r Llywodraeth yn anelu ato.

Deilliant ieithyddol dysgwyr ar ddiwedd addysg statudol

- 4.11. Rydyn ni'n croesawu'r bwriad i anelu at lefel o ruglder a'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn annibynnol. Mae lefel B2 yn fframwaith CEFR yn gam mawr ymlaen o'r lefelau o allu sy'n gyffredin yn y sector cyfrwng Saesneg o dan y drefn dysgu ac asesu bresennol.
- 4.12. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod seilio'r ddeddfwriaeth ar ddeilliannau dysgu disgyblion yn gosod seilwaith digon clir ac uchelgeisiol fydd wir yn gyrru newid yn y system addysg i gyflawni'r weledigaeth.
- 4.13. Yn sicr ni ddylai'r deilliant yma fod ar wyneb y Bil, ac wedi'i gyfyngu i B2 CEFR. Os mai'r bwriad yn y pen draw yw bod pob disgybl yn gadael yr ysgol yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus, yna mae'n hollbwysig i'r deilliant ieithyddol fod yn rhywbeth all esblygu dros amser a bod codi disgwyliadau a lefelau cyrhaeddiad yn barhaus, yn gyson gyda'r athroniaeth o gontinwmm ieithyddol. Rhaid sicrhau mai isafswm nid nod i anelu ato yn unig fydd unrhyw gyfeiriad at lefel o ruglder.
- 4.14. Gyda ffocws ar ddeilliannau ieithyddol disgyblion, mae peryg y bydd awdurdodau lleol yn blaenoriaethu codi lefelau Cymraeg ysgolion Saesneg i lefel B2 a gadael ysgolion sydd eisoes yn cyrraedd B2 ar y lefel honno am mai dyna'r 'nod' ac nad oes cymhelliant i gynyddu lefelau y tu hwnt i hynny.
- 4.15. Byddai gosod nod o gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac anelu at sicrhau addysg Gymraeg i bawb yn fwy clir o lawer. Addysg Gymraeg yw'r ffordd orau o sicrhau rhuglder felly byddai gwneud hynny'n sicrhau cyrhaeddiad uwch na lefel B2 ynddi'i hun.

Pennod 2: Continwmm sgiliau Cymraeg gydol oes

- 4.16. Rydyn ni'n croesawu rhoi sail statudol i'r continwmm a chryfhau'r fframwaith polisi cenedlaethol a'r ddarpariaeth o ran un llwybr dysgu.
- 4.17. Ar hyn o bryd, mae Cwricwlwm i Gymru'n cadw dau lwybr dysgu Cymraeg ac yn gwahaniaethu rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, yn groes i bolisi ac addewid y Llywodraeth i waredu 'Cymraeg ail iaith'. Parhau i fethu 80% o ddisgyblion felly mae ein system addysg.
- 4.18. Cymraeg yw'r unig bwnc o fewn Cwricwlwm i Gymru sy'n cynnig dau lwybr dysgu i ddisgyblion ac yn rhoi nenfwd ar gyrhaeddiad y mwyafrif. Mae felly yn gwbl groes i holl athroniaeth ac amcanion Cwricwlwm i Gymru.
- 4.19. Rhaid felly i'r continwmm y bydd gweinidogion yn ei ddatgan fod yn un sy'n cael gwared ar y gwahaniaethu hwn rhwng gwahanol fathau o ysgolion. Dylai fod datganiad clir bod modd i bob disgybl deithio ar hyd y continwmm, ac y bydd disgwyl i bob ysgol godi safonau dros amser.
- 4.20. Mae cymwysterau'n allweddol yn hynny o beth, ond nid oes datganiad o fwriad yn y papur y bydd un cymhwyster cyfun Cymraeg. Yn wir, nid oes unrhyw gyfeiriad at gymwysterau o gwbl yn y papur, sy'n syfrdanol o ystyried ei rôl ganolog yn y system addysg.

- 4.21. Mae sefydlu un cymhwyster yn allweddol os ydyn ni wir eisiau sicrhau bod pob un yn gadael yr ysgol yn hyderus eu Cymraeg, gan y bydd hyn yn cymhell newid yn y system a gwella cyrhaeddiad. Rhaid i'r Bil felly sefydlu un cymhwyster Cymraeg cyfun mewn statud erbyn 2030 fan bellaf. Fel arall, methiant fydd gweithrediad yr holl ddeddfwriaeth.
- 4.22. Rydyn ni'n manylu ymhellach ar sefydlu un cymhwyster Cymraeg yn adran 6, a gellir gweld ein cynigion ni ar gyfer un cymhwyster yn cymdeithas.cymru/dogfen/un-cymhwyster-cymraeg-iaith-i-bawb.

Pennod 3: Categoriadau ysgolion yn ôl cyfrwng iaith

- 4.23. Ar y daith tuag at addysg cyfwng Cymraeg i bawb, credwn fod angen rhagor o eglurder ac uchelgais yn y system categoriedd ysgolion er mwyn gyrru newid a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, felly rydym yn croesawu'r bwriad i roi'r gyfundrefn ar sail statudol.
- 4.24. Cefnogwn yn gryf y cynnig i osod isafswm darpariaeth Gymraeg i bob ysgol. Bydd gwneud hynny yn helpu i sicrhau ein bod yn codi safonau a disgwyliadau pob disgybl, ac mi fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dylid datgan yn glir yn y Bil mai'r bwriad fydd cynyddu'r isafswm dros amser.
- 4.25. Cefnogwn yn gryf hefyd y cynnig y bydd disgwyliad i bob ysgol gynyddu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser ac y bydd dyletswydd ar ysgolion i gyhoeddi cynllun yn manylu sut y maent am gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dros pa gyfnod amser.
- 4.26. Dylid ystyried y categorïau fel continwmm, yn hytrach na diffiniadau statig, a bod disgwyl i bob ysgol symud ar hyd y continwmm tuag at fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â hwyluso a chymhell symud i fyny categorïau, gyda chymhelliannau ariannol, adnoddau a chynghor.
- 4.27. Dylai'r ddyletswydd ar ysgolion i gynyddu ei darpariaeth Gymraeg fod yn un statudol, a dylid cyflwyno cymhelliannau ariannol, adnoddau a chynghor arbenigol i ysgolion i gymhell symud i fyny'r categorïau. Nid yw'r cynigion ar hyn o bryd yn ddigon cryf na chlir yn hynny o beth.
- 4.28. Rydyn ni'n croesawu'r bwriad mai Gweinidogion fydd yn pennu disgrifiad pob categori ac mai awdurdodau lleol fydd yn cymeradwyo categori pob ysgol yn eu hawdurdod nhw yn unol â'r targedau a osodir arnynt, ac yna'n gosod disgwyliadau cynnydd ar bob ysgol a monitro cynnydd. Fel y nodir yn y cynigion, yr awdurdodau lleol eu hunain sy'n adnabod ac yn deall sefyllfa eu hysgolion orau. Er hynny, mae angen bod yn glir mai cynyddu darpariaeth Gymraeg a symud ysgolion at fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r nod, fel nad yw awdurdodau lleol yn parhau i atal twf addysg Gymraeg, fel mae nifer wedi gwneud.
- 4.29. Rhaid i'r Bil ddatgan yn glir y bydd y categori 1 cyfrwng Saesneg yn cael ei waredu erbyn dyddiad penodol, gan mai'r bwriad yw i ysgolion gynyddu eu darpariaeth Gymraeg ar hyd y categorïau. Rhaid hefyd gosod nod ar wyneb y Bil y bydd pob ysgol yn gategori cyfrwng Cymraeg 3P erbyn 2050.
- 4.30. Er ein bod yn derbyn y bydd taith pob ysgol ac awdurdod lleol tuag at gynyddu darpariaeth Gymraeg yn wahanol, rydyn ni'n gwrthwynebu syniadaeth y Comisiwn Cymunedau Cymraeg o 'ardaloedd sensitifrwydd ieithyddol' ac unrhyw ddefnydd ohono wrth ystyried categorïau ysgolion gan y bydd hyn yn tynnu sylw oddi ar y prif nod ac yn gam gwag.
- 4.31. Bydd angen gweithredu dwys ym mhob ardal a bydd y ffocws yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd. Yn siroedd y gorllewin, er enghraifft, bydd y pwyslais ar symud pob

ysgol bresennol at fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a bydd modd symud yn fwy cyflym tuag at addysg cyfrwng Cymraeg i bawb. Yn y de ddwyrain, ar y llaw arall, bydd pwyslais ar agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, yn ogystal â symud ysgolion i fyny'r continwmm.

- 4.32. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai pob disgybl ym mhob ardal dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig bod pennu dalgyloedd penodol lle bydd cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn tansilio holl athroniaeth y Bil a'r egwyddor bod y Gymraeg i bawb, beth bynnag eu cefndir.
- 4.33. Rydyn ni'n croesawu'r bwriad i bob ysgol greu cynllun cyflawni ar gyfer cynyddu ei darpariaeth Gymraeg, a'r elfennau a gynigir ar gyfer y cynllun hwnnw. Cynigiwn y dylai'r cynllun hefyd gynnwys asesiad o sgiliau ieithyddol staff, a chynlluniau i'w huwchraddio.
- 4.34. Cefnogwn y cynnig i'r awdurdod lleol ac Estyn gael cyfrifoldeb dros fonitro cynnydd ysgolion o ran eu cynllun cyflawni.
- 4.35. Mae'r cynigion yn nodi bod ysgolion newydd yn gyfle euraid i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cytunwn gyda hynny, a chredwn y dylai fod cyfarwyddyd ar wyneb y Bil mai ysgol cyfrwng Cymraeg fydd pob ysgol newydd. Byddai proses o gynnal 'asesiad effaith ieithyddol' ar gyfer pob ysgol newydd yn gam gwag ac yn wastraff adnoddau — yn un peth, mae'n amlwg bydd unrhyw ysgol newydd cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ieithyddol gadarnhaol, ac ysgol newydd o gategori ieithyddol arall yn cael effaith negyddol.
- 4.36. Nid pob sir yng Nghymru sy'n agor ysgolion newydd yn rheolaidd, ac yn y siroedd sydd wrthi'n gwneud hynny (yn bennaf, mewn ardaloedd mwy poblog lle mae llai o siaradwyr Cymraeg) gwyddom, ar sail degawdau o dystiolaeth ar y model, y caiff ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd effaith drawsnewidiol ar yr iaith yn lleol, profiadau teuluoedd a chyfleoedd disgyblion.
- 4.37. Yn ogystal, yn yr achosion y cyfeirir atynt lle mae uno ysgolion, dylai'r Bil osod rheol y bydd disgwyl i'r ysgol newydd fod mewn categori uwch.

Pennod 4: Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg

- 4.38. Rydyn ni'n croesawu creu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes gyda gweledigaeth 10 mlynedd ac adolygiad bob tymor seneddol,
- 4.39. Mae addysg Gymraeg yn bwysig i ddysgwyr o bob oed, ac mae'n hollbwysig felly cynnwys y cyfnod cyn-statudol yn y Cynllun Cenedlaethol hefyd. Mae caffael iaith yn hynod bwysig yn y cyfnod hwn, a chyn dechrau addysg statudol mae plant yn derbyn amrywiaeth o ddarpariaeth gan awdurdodau lleol, cwmnïau gofal plant preifat a darparwyr fel Mudiad Meithrin. Fan leiaf mae angen cynnwys darpariaeth cyn-ysgol sy'n cael ei darparu neu ei hariannu gan awdurdodau lleol a thrwy'r Llywodraeth yn y Bil.
- 4.40. Rydyn ni'n cytuno bod angen dod â'r asiantaethau addysg ac awdurdodau lleol ynghyd i weithredu'r cynllun, er mwyn sicrhau cydweithrediad a llwyddiant.
- 4.41. Rydyn ni'n croesawu hefyd y bwriad mai Gweinidogion Cymru fydd yn gosod targedau i awdurdodau lleol o ran cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg.
- 4.42. Er ein bod yn croesawu'r bwriad i osod targedau cenedlaethol ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy'r Gymraeg, credwn fod angen i'r targedau ddeillio o'r ddeddfwriaeth ei hun, gyda grym statudol iddynt, yn hytrach na chyfyngu at osod dyletswydd ar Weiniogion i'w cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol. Yn ogystal, rhaid i'r targedau'r gweithlu a osodir ar awdurdodau lleol fod yn statudol hefyd.

- 4.43. Rhaid gosod targedau statudol hefyd ar golegau hyfforddiant cychwynnol athrawon, consortia addysg a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynyddu'r nifer sy'n hyfforddi i ddysgu trwy'r Gymraeg. Nid yw'r cynnig y bydd disgwyl i'r asiantaethau hyn 'rhoi sylw' yn unig i'r targedau wrth gynllunio addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol yn ddigonol o bell ffordd. Gwyddom ar sail blynyddoedd o brofiad erbyn hyn nad yw'r drefn bresennol, sydd heb dargedau cadarn, statudol ar y sefydliadau hyn, yn gweithio i ddarparu'r gweithlu sydd ei angen.
- 4.44. Ni ddylai targedau gael eu cyfyngu i athrawon a dylai targedau ar gyfer y gweithlu addysg gynnwys cymorthyddion, staff cefnogol sy'n gwneud gwaith gweinyddol a staff sy'n gofalu am blant yn ystod amser cinio ac oddi allan i oriau addysg statudol fel clybiau brechwast ac ar ôl ysgol, gan fod yr aelodau eraill o staff hyn hefyd yn bwysig o ran eu hymwneud â disgyblion.

Pennod 5: Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg mewn awdurdodau lleol

- 4.45. Cytunwn yn gryf gyda'r bwriad o gael gwared ar gyfundrefn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg — cyfundrefn sydd wedi hen fethu, fel y casglodd Bwrdd Cynghori annibynol y Llywodraeth.
- 4.46. Un o brif fethiannau'r CSGA'au yw nad ydynt yn statudol, ac nad oes unrhyw ganlyniadau o fethu cyrraedd targedau, a bod targedau yn aml yn cael eu lleihau os nad ydynt yn cael eu cyrraedd. Mae'n hanfodol felly y byddai'r CGCA'au arfaethedig yn rhai statudol.
- 4.47. Rydyn ni'n croesawu'n fawr felly'r bwriad mai Gweinidogion Cymru yn genedlaethol fydd yn gosod targedau ar awdurdodau lleol, eu bod yn dargedau statudol ac y bydd dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau.
- 4.48. Mae'n hollbwysig mai'r bwriad yw cynyddu targedau'r CGCA'au wrth i'r targedau hynny gael eu cyrraedd, gyda'r bwriad o annog cynnydd parhaus a bod pob disgybl yn derbyn addysg Gymraeg dros amser. Ni ddylai targed aros yr un peth am gyfnod hir wedi iddo gael ei gyrraedd.
- 4.49. Nid ydym o'r farn bod cadw'r saith deilliant sydd yn y CSGAu presennol yn ddigonol, a chredwn fod angen i'r targedau fod yn rhai meintiol clir, gyda rhagor ohonynt, yn cynnwys targedau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran yn benodol.
- 4.50. Dylai fod targedau meintiol ar gyfer nifer y plant meithrin neu dair oed a mwy o blant dosbarth derbyn neu bump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond, fel y nododd Cymdeithas yr Iaith mewn ymateb i'r rheoliadau newydd yn 2019, nid yw rhain ar eu pen eu hunain yn ddigonol, ac mewn gwirionedd, roedd newid prif darged y Cynlluniau Strategol i flwyddyn 1 (pan fo mwyafrif y plant naill ai'n 5 neu'n 6 mlwydd oed) yn hytrach na'r hen ddeilliant 7 mlwydd oed yn golygu gostwng y targedau twf addysg cyfrwng Cymraeg cenedlaethol.
- 4.51. Nid yw'r targedau ar gyfer dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 yn mynd i fod yn ddigonol i wella darpariaeth nifer o gynghorau yn y Gorllewin, yn enwedig Gwynedd a Môn, lle mae diffyg dilyniant yn broblem, gan nad oes targedau meintiol ar gyfer normaleiddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu ym mhob ysgol nac ychwaith o ran canran y grwpiau oedrannau hyn sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg.
- 4.52. Credwn felly bod rhaid i'r CGCAu gynnwys targedau meintiol ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob awdurdod yn cyflawni i'r graddau sydd ei angen, yn enwedig ar gyfer

blynyddoedd hŷn a diwedd blwyddyn 3, diwedd blwyddyn 6 a diwedd blwyddyn 9 yn benodol.

- 4.53. Bydd darpariaeth trochi hwyr yn rhan bwysig o wireddu amcanion y Bil, felly dylid cynnwys deilliant yn ymwneud â chynnal ac ehangu darpariaeth trochi hwyr yn y CGCAau.
- 4.54. Mae cyfnod o 10 mlynedd ar gyfer CGCAau yn rhoi cyfle ar gyfer cynllunio hirdymor, ac mae ychwanegu adolygiad 5 mlynedd ac adroddiad blynyddol yn helpu i sicrhau cynnydd. Gyda chyfnod o 10 mlynedd, bydd angen mecanwaith cadarn sy'n sicrhau atebolrwydd allanol annibynnol, cymhellion clir a gweithredu parhaus.
- 4.55. Rhaid i'r adolygiad 5 mlynedd fod yn drylwyr, gan arwain at gynyddu'r targedau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf os yw awdurdod wedi gwneud cynnydd da, a gweithredu mesurau arbennig os nad oes cynnydd wedi bod. Dylai'r adroddiad blynyddol hefyd fod yn sail i ymyrraeth os nad oes cynnydd digonol.
- 4.56. Ar ôl 5 mlynedd, credwn fod angen arolygiad ffurfiol annibynnol gan Estyn o bob cynllun er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gyfredol ac y bydd yn cyflawni'r targedau.
- 4.57. Er ein bod yn cytuno bod angen gwarchod rhag shifft iaith, gwrthwynebwn y syniad o ddynodi ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol er mwyn gosod disgwyliadau uwch mewn ardaloedd penodol. Ategwn ein sylwadau blaenorol y dylai fod un nod cyffredin ar draws Cymru, sef addysg Gymraeg i bawb ymhen amser. Bydd modd gosod targedau uwch o'r dechrau mewn rhai ardaloedd, ond wrth gyrraedd targed dylai hwnnw gael ei godi.
- 4.58. Cytunwn gyda'r cynigion i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu a chynyddu'r nifer sy'n gallu addysgu trwy'r Gymraeg, ond rhaid i'r targedau hyn fod yn rhai meintiol, statudol i adlewyrchu'r targedau cenedlaethol. Credwn hefyd fod angen targedau i gynyddu nifer y gweithlu addysg ehangach, fel cymorthyddion dosbarth hefyd.
- 4.59. Credwn yn ogystal y dylai fod hawl yn y Bil i drafnidiaeth am ddim i addysg cyfrwng Gymraeg, gyda dyletswydd newydd a chyllid i awdurdodau lleol i ddarparu trafnidiaeth am ddim i ysgolion, colegau ac addysg cyn-ysgol. Gellir cyflawni hyn drwy ddiwygio Mesur Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
- 4.60. Rydyn ni'n croesawu'r bwriad i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiadau cynnydd yn erbyn y targedau a osodir, er mwyn sicrhau tryloywder, gwella craffu a chymell cynnydd.
- 4.61. Cytunwn gyda'r cynnig i alluogi Estyn i gynnal adolygiad o awdurdodau lleol a chynnig argymhellion.
- 4.62. Cytunwn y dylid rhoi grym i Weinidogion Cymru i orfodi awdurdodau lleol i gyflwyno cynllun newydd i'w gymeradwyo, a chytunwn hefyd gyda'r cynnig i roi'r gallu i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o'r CGCA arfaethedig os oes patrwm o dangyflawni.
- 4.63. Yn ogystal â mesurau monitro a gorfodi, rhaid hefyd sicrhau system sy'n cymell newid o fewn awdurdodau lleol i gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant, canllawiau, cyngor ac adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau addysg eraill.
- 4.64. Mae hefyd angen system ariannu newydd ar gyfer awdurdodau lleol, ac mae rhai cymhellion ariannol yr ydym yn eu ffafrio er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni ar y nod hirdymor a thargedau cenedlaethol.
- 4.65. Dylai arian cyfalaf Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer adeiladau newydd i gyd gael ei glustnodi i addysg cyfrwng Gymraeg. Yn y cyfamser, dylid parhau a chynyddu'r

gronfa bresennol sy'n cynnig 100% o'r arian cyfalaf i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau penodedig Cymraeg.

- 4.66. Credwn ymhellach bod modd ystyried yn ogystal â neu yn lle'r uchod:
- Lle nad yw awdurdod lleol yn cyrraedd eu targedau statudol i ehangu a normaleiddio addysg cyfrwng Cymraeg, dylid trosglwyddo'r arian refeniw i gonsortia neu ysgolion unigol sy'n dangos cynnydd ar sail cynllun strategol.
 - Parhau â chronfa gyfalaf ar wahân sydd â maint digonol er mwyn cyrraedd targedau/nod hirdymor y ddeddfwriaeth.

Pennod 6: Dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol

Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg

- 4.67. Rydyn ni'n croesawu'r cynnig i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr. Credwn fod rhaid i hyn fod yn ddyletswydd statudol ar wyneb y Bil.
- 4.68. Rhaid i'r ddyletswydd gwmpasu gwaith hyrwyddo fyddai'n cychwyn yn gynharach na rhai misoedd cyn y dyddiad cofrestru ar gyfer dosbarth derbyn. Gwyddom fod rhieni'n gwneud penderfyniadau am addysg a iaith y cartref yn gynnar, yn aml ymhell cyn i'w plant fynd i'r ysgol feithrin neu'r ysgol.
- 4.69. Credwn hefyd y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr ar lefel genedlaethol ac yn y gefnogaeth a ddarperir i awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd. Dylai hyn gynnwys mesurau megis cyhoeddi canllawiau ac adnoddau; cyllid i awdurdodau lleol, asiantaethau addysg a mudiadau Cymraeg; cydweithio gyda gwasanaethau iechyd i rieni sy'n disgwyl a rhieni newydd; a hyfforddiant a chyllid arbennig i weithgareddau hamdden a theuluol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.70. Dylai'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol ganolbwyntio'n benodol ar gyfleu'r polisi newydd yn y Ddeddf a'r bwriad i symud pob ysgol ar hyd y continwmm, esbonio beth yw addysg Gymraeg a'r buddion mae'n eu cynnig, gan ddechrau yn y cyfnod cyn-ysgol a thargedu rhieni newydd a'r rhai sy'n disgwyl.
- 4.71. Dylid cyllido rhaglen benodol i hyrwyddo a hwyluso mynediad grwpiau sy'n fwy tueddol o gael eu heithrio o addysg Gymraeg ar hyn o bryd, gan gynnwys pobl sydd wedi symud i Gymru, cymunedau difreintiedig a dosbarth gweithiol, a lleiafrifoedd ethnig.

Darpariaeth trochi hwyr

- 4.72. Rydyn ni'n croesawu'r polisi clir a amlinellir i gynyddu darpariaeth trochi hwyr a'r gydnabyddiaeth o'i phwysigrwydd mewn tyfu addysg Gymraeg a'i hystemyn i deuluoedd newydd.
- 4.73. Dylai'r Bil wneud canolfannau trochi yn ddarpariaeth statudol ym mhob sir er mwyn i bob plentyn sy'n symud i'r ardal ddysgu Cymraeg at lefel ddigonol i allu dilyn addysg cyfrwng Cymraeg ac i hwyluso trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg Gymraeg. Credwn felly y dylai'r Bil osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu canolfannau trochi

hwyr a'u hyrwyddo'n rhagweithiol. Dylai darpariaeth drochi hefyd fod yn rhan o'r targedau yn y CCGAau.

- 4.74. Dylai'r ddarpariaeth trochi hwyr fod ar fodel Gwynedd, cyn iddi gael ei hail-strwythuro yn 2019, a dysgu o'r hyn sy'n gweithio mewn gwahanol siroedd lle bydd pwyslais a chynulleidfaoedd gwahanol sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- 4.75. Rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth trochi hwyr ymhob sir yn adlewyrchu'r angen ar gyfer trochi yn y cynradd a'r uwchradd, ac yn cael ei hyrwyddo'n rhagweithiol i deuluoedd a disgyblion mewn gwahanol sefyllfaoedd, yn cynnwys disgyblion sy'n symud o ardal sy'n cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg neu o'r tu allan i Gymru, a disgyblion sy'n trosi i ysgol Gymraeg o ysgol Saesneg yn y cynradd neu'r uwchradd.
- 4.76. Rhaid parhau i warchod a chynyddu'r cyllid dynodedig i ddarpariaeth trochi hwyr ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn diwallu'r angen am fwy o ddarpariaeth.

Pennod 7: Cefnogaeth i wireddu amcanion y Bil

- 4.77. Cytunwn fod angen cefnogaeth ar ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, a bydd angen amrywio lefel y gefnogaeth yn dibynnu ar sefyllfa'r ardal leol ac ysgolion unigol. Bydd angen cefnogaeth ariannol i wireddu amcanion y Bil, ond bydd angen hyfforddiant arbenigol ac adnoddau i ysgolion hefyd.
- 4.78. Mae angen gwneud dysgu trwy'r Gymraeg yn haws ac yn rhywbeth mae athrawon yn dymuno ei wneud. Ar hyn o bryd mae adnoddau cyfrwng Cymraeg yn brin, yn enwedig ar lefelau uwch. Yn ogystal â gwneud gwaith athrawon sy'n dysgu trwy'r Gymraeg yn fwy anodd mae'n rhoi disgyblion dan anfantais. Mae adnoddau Cymraeg yn hanfodol felly, ac mae angen i'r Llywodraeth wella adnoddau presennol a'u comisiynu o'r newydd lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.
- 4.79. Rydyn ni'n gweld budd canoli darpariaeth dysgu Cymraeg, a bod hynny'n digwydd trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol neu ddarparwr arall. Mae gwahaniaethau rhwng dysgu plant neu bobl ifanc a dysgu oedolion felly mae'n bosibl y byddai angen ailstrwythuro yn y ganolfan i sicrhau arbenigedd yn maes dysgu plant a phobl ifanc.
- 4.80. Os oes bwriad ehangu rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol byddai angen cynyddu'r gyllideb yn sylweddol a rhoi pob cefnogaeth i'r gwasanaeth wrth iddo ehangu.
- 4.81. Yn ogystal, credwn y dylid cynyddu adnoddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn gallu datblygu ei rhaglen waith i ganolbwyntio ar feysydd strategol o bwys, yn cynnwys y gweithlu addysg, rhaglenni Cymraeg yn y teulu, iechyd a gofal.
- 4.82. Cytunwn fod angen gwella sefydlogrwydd hirdymor dysgu Cymraeg, ac y dylai fod dyletswydd ar weinidogion i sicrhau fod ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg ar gael i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru, a dyletswydd i sicrhau bod strwythurau addas yn cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi dysgu'r Gymraeg.
- 4.83. Byddai rhoi cyllideb ddigonol a sefydlogrwydd hirdymor i'r sector o gymorth i ddarparwyr er mwyn gallu cynllunio'n well, a rhoi sicrwydd i ddarparwyr, i diwtoriaid a dysgwyr; rydyn ni felly'n cefnogi ymestyn y cyfnod tendro, fel nad oes raid cyflwyno tendr bob blwyddyn.
- 4.84. Mae modelau a darparwyr eraill o ddysgu Cymraeg hefyd wedi ennill eu plwyf dros y blynyddoedd diweddar, a dylai'r Llywodraeth fod yn annog a chefnogi darpariaeth eang ac amrywiol o ffurfiau gwahanol o ddysgu, ynghyd ag annog cydweithio rhwng dysgwyr a darparwyr.

- 4.85. Mae gan bawb yng Nghymru'r hawl i ddysgu Cymraeg, waeth pa oedran, a dylid gwarantu fod pawb yn gallu gwneud hynny trwy ddarpariaeth ddigonol o gyrsiau a mesurau ychwanegol i gefnogi dysgwyr. Yn benodol dylid:
- sicrhau gwersi Cymraeg ar bob lefel am ddim i bawb, boed drwy'r Ganolfan Dysgu
 - Cymraeg Genedlaethol neu ddarparwr arall
 - buddsoddi mewn rhaglenni Cymraeg yn y teulu i annog rhieni i ddysgu'r iaith gyda'u plant a sicrhau trosglwyddiad iaith mewn teuluoedd
 - ymestyn cwmpas Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn creu'r hawl i bob gweithiwr ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle
 - sicrhau yr hawl i ddysgu neu loywi Cymraeg dwys i bawb am ddim, er mwyn sicrhau bod ystod ehangach o bobl yn gallu dod yn rhugl yn yr iaith. Byddai hyn yn sicr o gymorth o safbwynt y gweithlu addysg
 - gosod amodau ar grantiau cyhoeddus i estyn y Gymraeg i grwpiau sydd wedi'u heithrio o'r iaith ar hyn o bryd. Byddai hyn o gymorth mawr, er enghraifft, i rieni sengl sydd â'u plant yn derbyn addysg Gymraeg ond nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg eu hunain
 - creu darpariaeth eang o drafnidiaeth, bwyd a gofal plant am ddim er mwyn hwyluso mynediad at wersi Cymraeg yn agos at bobl yn eu cymunedau yn ogystal â darpariaeth ar-lein yn unig i'r rhai sy'n dymuno hynny.

Amlinelliad o gostau ac effeithiau

- 4.86. Er ein bod yn croesawu'r agwedd y dylid ystyried cyllid ar gyfer gweithredu'r Bil fel gwariant ar y system addysg, yn hytrach na gwariant ar gyflwyno polisi'r Gymraeg, mae angen iddi fod yn glir i awdurdodau lleol y bydd cefnogaeth ariannol ar gael i gyflawni amcanion y Bil.
- 4.87. Mae sicrhau gweithlu digonol yn allweddol i wireddu cynigion y Bil, a bydd hyfforddi ac uwchsgilio yn rhan bwysig o hynny. Os mai'r bwriad yw bod arian ar gyfer hyfforddi arweinwyr ysgol, uwchsgilio a chostau cyflenwi yn dod yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol trwy Grant y Gymraeg mewn Addysg a'r Grant dysgu proffesiynol, mae angen cynyddu'r grantiau hynny'n sylweddol, a chaniatáu rhagor o gyllid mewn ardaloedd lle bydd angen mwy o waith i ddatblygu'r gweithlu.
- 4.88. Anghytunwn yn gryf fod gwariant ychwanegol o £1.845 miliwn yn 2022/23, £500,000 yn 2023/24 a £2 miliwn yn 2024/25 ar Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn ddigonol o ystyried yr her sydd yn y maes a diffygion y Cynllun ei hun. Rydyn ni wedi argymhell gwariant o £10 miliwn yn flynyddol er mwyn gwireddu cynlluniau ar gyfer Cymreigio'r gweithlu addysg, y manylir arnynt isod.

Y gweithlu addysg

- 5.1. Y brif her wrth sicrhau bod pob disgybl yn dod yn siaradwr Cymraeg hyderus yw cyflenwad digonol o'r gweithlu addysg sy'n gallu gweithio trwy'r Gymraeg.
- 5.2. Mae'n hanfodol felly cynnwys targedau statudol cenedlaethol a lleol i gynyddu cyfran y gweithlu sy'n medru addysgu trwy'r Gymraeg a chynnwys targedau i ddarparwyr

hyfforddiant a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynyddu nifer yr hyfforddeion sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg yn y Bil. Heb y targedau hyn, ni fydd modd cyflawni amcanion y Bil.

- 5.3. Nid yw Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg y Llywodraeth yn gwneud hanner digon i gynyddu nifer y gweithwyr addysg sy'n siarad Cymraeg i'r graddau sydd eu hangen, nac yn gweithredu ar ddigon o frys. Credwn fod angen cryfhau'r cynllun a chyflwyno sawl mesur polisi ychwanegol yn y maes hwn.
- 5.4. Yn gyntaf, er mwyn sicrhau gweithlu Cymraeg ar gyfer y dyfodol mae angen addasu hyfforddiant athrawon sy'n cymhwyso trwy ymestyn y cwrs hyd at flwyddyn ychwanegol, ar gyfer dysgu a/neu gloymi eu sgiliau er mwyn iddynt allu gweithio trwy'r Gymraeg yn hyderus.
- 5.5. Mewn amser dylai cymhwyster ieithyddol, fel y Dystysgrif Sgiliau Cymraeg sydd ar waith mewn Addysg Uwch, fod yn hanfodol i athrawon newydd, a dylid cynnig cymhwyster cyffelyb i athrawon sydd eisoes mewn swydd.
- 5.6. Rhaid cynnwys darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn y targedau a'r camau polisi hefyd. Ar hyn o bryd, mae darpariaeth megis cefnogaeth ar gyfer dyslecsia a disgyblion byddar yn cael ei hystyried yn ddarpariaeth iechyd, felly mae perygl, o beidio cynnwys darpariaeth arbenigol o'r fath, y bydd rhai plant yn methu cael addysg Gymraeg, gan eu rhoi dan anfantais bellach.
- 5.7. Rhaid gwella a datblygu'r cynllun sabothol i fod yn gynllun cenedlaethol eang fyddai'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd, dilyniant a gwerthusiad i staff o'r cynradd a'r uwchradd.
- 5.8. Wrth gyflwyno unrhyw gynllun hyfforddiant, sabothol neu fel arall, mae angen sicrhau bod gweithwyr yn cael eu rhyddhau o'u gwaith, a bod hyfforddiant iaith yn cael ei flaenoriaethu. Rhaid wrth adnoddau a chefnogaeth ychwanegol i ysgolion gan awdurdodau lleol a'r Llywodraeth er mwyn iddynt allu rhyddhau staff yn haws.
- 5.9. Mae angen rhaglen hyfforddiant mewn swydd cenedlaethol ar gyfer arweinwyr a phenaethiaid ysgolion fydd yn cynnwys modiwl ar hyrwyddo datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion.
- 5.10. Galwn hefyd am sefydlu Cronfa Datblygu'r Gweithlu Addysg Gymraeg o £10 miliwn y flwyddyn dros 5 mlynedd er mwyn datblygu gallu'r gweithlu addysg. Cynigiwn y dylid defnyddio'r cyllid yma ar ar gyfer:
 - Ceisiadau traws-awdurdod gan awdurdodau lleol i hyfforddi'r gweithlu, a allai ddigwydd mewn timau ar draws ardal mewn cydweithrediad ag athrawon bro, ar gyfer:
 - y blynyddoedd cynnar/meithrin
 - ysgolion, er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a sicrhau dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd
 - y sector ôl-16, er mwyn sicrhau dilyniant CA4, Addysg Uwch ac Addysg Bellach
 - hyfforddiant i gymorthyddion dosbarth ar draws pob oedran, staff ategol a staff addysg allgyrsiol e.e. cerddoriaeth, chwaraeon, drama ac ati
 - canolfannau trochi

Cronfa benodol i ysgolion i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol i:

 - symud ar hyd y continwmm ieithyddol a chefnogi ysgolion sydd eisiau arloesi ac arwain yn y maes hwn
 - datblygu medrau iaith athrawon ac adrannau mewn ysgol a rhyddhau staff ar gyfer dysgu'r Gymraeg

- targedu rhieni a theuluoedd trwy raglen ddysgu ar y cyd mewn ysgolion cynradd
 - darparu hyfforddiant mewn swydd ysgol-gyfan trwy ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd statudol
- 5.11. Rydyn ni'n deall nad pob gweithiwr addysg fydd yn dymuno dysgu iaith newydd at lefel ei defnyddio yn y gwaith, ni fyddai unrhyw un yn dymuno gweld gweithwyr addysg yn cael eu diswyddo, na bod gwahaniaethu yn erbyn rhywun di-Gymraeg. Gyda chynllunio gofalus, a chynnydd dros amser, rydym yn hyderus na fydd rhaid i hynny ddigwydd. Mae'n bwysig felly bod ystyried cynlluniau adleoli ar gyfer athrawon wrth ddechrau'r daith at addysg Gymraeg i bawb, a sicrhau bod pawb yn gweld dysgu'r Gymraeg fel mantais a chyfle, yn hytrach nag yn her neu yn fwrn ychwanegol. Dylid rhoi ymrwymiad y bydd hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol i bob gweithiwr addysg i wella eu sgiliau Cymraeg.
- 5.12. Wrth osod targedau ar gyfer y gweithlu sy'n medru'r Gymraeg dylid cynnwys cymorthyddion, staff cefnogol sy'n gwneud gwaith gweinyddol a staff sy'n gofalu am blant yn ystod amser cinio ac oddi allan i oriau addysg statudol fel clybiau brechwast ac ar ôl ysgol.
- 5.13. Yn gyffredinol, rhaid hefyd codi cyflogau athrawon a gwella eu hamodau gwaith os ydy'r Llywodraeth o ddifrif am ddenu a chadw rhagor o weithwyr i'r proffesiwn. Mae'r broblem sylweddol sydd o ran y gweithlu yn gyffredinol yn effeithio ar y sector i gyd, ond gydag effaith niweidiol ddwys ar y sector Cymraeg, gan fod y Gymraeg yn iaith leiafrifol. Ni fyddwn yn datrys yr her heb y mesurau sylfaenol hyn.

Cymwysterau a'r cwricwlwm

- 6.1. Mae'n bryder mawr nad oes unrhyw sôn yn y cynigion am greu un cymhwyster gydag un continwwm dysgu ac asesu. Rhaid i'r Bil Addysg Gymraeg sefydlu un cymhwyster Cymraeg cyfun mewn statud erbyn 2030 fan bellaf. Fel arall, methiant fydd gweithrediad yr holl ddeddfwriaeth.
- 6.2. Ar hyn o bryd mae bwlch rhwng disgwyliadau a chyraeddiadau mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, sy'n gosod nenfwd ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n dilyn cwrs Cymraeg ail iaith, ac yn golygu bod 80% o blant yn gadael yr ysgol yn methu siarad y Gymraeg yn hyderus. Bydd hyn yn parhau heb gyflwyno un cymhwyster i bawb.
- 6.3. Oherwydd natur ein system addysg, sy'n golygu mai canlyniadau arholiadau disgyblion yw'r prif allbwn sy'n cael ei ddefnyddio i fesur llwyddiant ysgolion, byddai cyflwyno un cymhwyster yn gyrru newid yn y system drwyddi draw trwy gymell athrawon a phrifathrawon i godi safonau a gwella dysgu Cymraeg. Dyma sut fydd sicrhau bod pawb yn gadael ysgol yn siaradwr hyderus, heb nenfwd ar gyrhaeddiad.
- 6.4. Cynigiwn y dylid datblygu dyfarniad fyddai cyfwerth â dau gymhwyster TGAU, wedi ei ddyfarnu trwy ddau bapur, sef papur Cymraeg a phapur haen uwch. Byddai'r dyfarniad yn glir bod yr asesiad yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyrhaeddiad ar hyd yr un continwwm iaith.
- 6.5. Rydyn ni'n cynnig bod pob disgybl yn sefyll dau bapur arholiad:
- Papur arholiad cyffredinol Cymraeg/Cymraeg Uwch; byddai safonau cyrhaeddiad yn y papur yma yn ymestyn o radd B Cymraeg Uwch i radd F Cymraeg; a naill ai
 - Papur arholiad Cymraeg Uwch, graddau safon Cymraeg Uwch fel y nodir uchod; neu
 - Papur arholiad Cymraeg, graddau safon Cymraeg fel y nodir uchod.

- 6.6. Byddai'r dyfarniad gradd terfynol yn seiliedig ar ganlyniad y ddau bapur. Mantais hyn yw y byddai'r disgwyliadau ar gyfer y naill bapur a'r llall yn gwbl glir ac yn gorgyffwrdd. Er bod yna ddau asesiad, mae'r goargyffwrdd yn golygu bod un continwwm asesu yn seiliedig ar yr egwyddor o un continwwm iaith.
- 6.7. Byddai model fel hyn yn cynnig cyfle i ddisgyblion uwch eu gallu yn y Gymraeg, ond sy'n sefyll arholiad 'Cymraeg', gyrraedd gradd B 'Cymraeg Uwch' a chael cydnabyddiaeth am hynny.
- 6.8. Dylai pob disgybl adael yr ysgol yn gwybod beth yw lefel eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai creu un continwwm yn cynnig yr eglurder hwnnw i rieni, prifysgolion, cyflogwyr a'r disgyblion.
- 6.9. Ar hyn o bryd, mae Cymwysterau Cymru yn cydnabod bod angen newid y system fel ag y mae a symud tuag at un cymhwyster yn y dyfodol, ond yn dal i gynllunio ar gyfer dau gymhwyster, heb unrhyw orgyffwrdd, sy'n barhad o'r drefn bresennol sydd wedi methu. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd clir, diamwys i Gymwysterau Cymru ddatblygu un cymhwyster cyfun o fewn amserlen clir.

Blynyddoedd cynnar

- 7.1. Mae bwloch mawr yn y papur gwyn, gan nad yw'n cyfeirio at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Mae addysg cyn-statudol yn faes hanfodol gan fod rhieni yn dewis cyfrwng iaith addysg eu plant ar sail lleoliad ysgol a darpariaeth cyn-ysgol.
- 7.2. Ategwn ein sylwadau blaenorol bod angen cynnwys darpariaeth cyn-statudol yn y Bil felly, gyda thargedau cenedlaethol a lleol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- 7.3. Yn ogystal, credwn y dylid:
 - darparu 30 awr o ofal plant yr wythnos am ddim i bob teulu drwy gyfrwng y Gymraeg
 - mabwysiadu cynllun i symud yr holl sector blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gofal plant a meithrinfeydd, i fod yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig
 - buddsoddi'n helaeth yn sgiliau'r gweithlu drwy'r gronfa gweithlu newydd fydd yn werth £100 miliwn dros ddegawd
 - buddsoddi mewn rhaglenni Cymraeg yn y teulu i annog rhieni i ddysgu'r iaith gyda'u plant a sicrhau trosglwyddiad iaith mewn teuluoedd
 - sefydlu rhaglen sydd â chymhellion ariannol i'w chynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar y cyd â'r Mudiad Meithrin i drosi meithrinfeydd Saesneg yn feithrinfeydd Cymraeg

Addysg ôl-16

- 8.1. Bwloch mawr arall yn y papur yw'r diffyg cyfeiriad at ddarpariaeth ôl-statudol.
- 8.2. Mae darpariaeth addysg uwch a phellach yn allweddol i sicrhau dilyniant addysg Gymraeg, cadw sgiliau Cymraeg a chreu gweithlu Cymraeg ar draws gwahanol feysydd. Dyma faes o bwys felly, lle mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol yn llawer rhy isel. Credwn felly y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau ar gyfer addysg ôl-statudol, yn cynnwys targedau statudol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser.
- 8.3. Dylid hefyd cynnwys cymal yn y Bil yn gwarantu trafndiaeth am ddim i addysg ôl-statudol cyfrwng Cymraeg, gan fod diffyg darpariaeth trafndiaeth i golegau ac addysg bellach yn rhwystr i nifer o bobl ifanc ar hyn o bryd.

- 8.4. I ddechrau ar y gwaith o ddarparu addysg ôl-statudol cyfrwng Cymraeg cynigiwn y dylid blaenoriaethu rhai meysydd allweddol fel gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol — meysydd sydd o bwys strategol i amcanion y Bil a strategaeth iaith y Llywodraeth.

Diwedd glo

- 9.1. Rydyn ni'n croesawu ymrwymiad clir y Llywodraeth i sicrhau bod pob disgybl yn dod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol, ond nid yw'r cynigion yn y papur gwyn fel y mae yn ddigonol er mwyn sicrhau hynny. Rhaid eu cryfhau.
- 9.2. Mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid ein system addysg a sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru — beth bynnag eu cefndir, ble bynnag maen nhw'n byw — yn tyfu i fyny i siarad yr iaith sy'n hawl ac yn etifeddiaeth iddynt, ein hiaith genedlaethol ni. Erfyniwn ar y Llywodraeth i beidio â cholli'r cyfle hwnnw.

Gwybodaeth bellach

Am unrhyw wybodaeth bellach, neu i drafod y materion a godwyd yn yr ymateb hwn, cysylltwch â post@cymdeithas.cymru.

Dogfennau

- [Deddf Addysg Gymraeg i Bawb](#) - fersiwn derfynol a nodiadau esboniadol (2023)
- [Mwy na Miliwn – Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb](#) - dogfen weledigaeth etholiad 2021 (2020)
- [Un Cymhwyster Cymraeg Iaith i Bawb](#) (2019)
- [Yr Achos dros Ddeddf Addysg Gymraeg i Bawb](#) (2019)
- [Ymateb i adolygiad Bwrdd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg](#) (2018)
- [Targedau addysg lleol - dadansoddiad interim](#) (2017)
- [Cynllunio'r Gweithlu Addysg](#) – Cyrraedd Miliwn o Siaradwyr (2016)
- [Ymateb Cymdeithas yr Iaith i'r ymgynghoriad ar ganllaw anstatudol yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg](#) (2021)
- [Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg](#) (2019)
- [Ymateb Cymdeithas yr Iaith i'r ymgynghoriad ar Genhedaeth ein Cenedl: Cwricwlwm i Gymru](#) (2019)

Grŵp Addysg, Cymdeithas yr Iaith
Mehfin 2023

Deddf Addysg Gymraeg

Cymdeithas yr Iaith



Rhagair

Drwy gyfrwng y Ddeddf Addysg Gymraeg arfaethedig, mae gan y Llywodraeth gyfle unwaith mewn cenedlaeth i sicrhau fod pob plentyn yn ein gwlad yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ffaith bod wyth deg y cant o'n plant yn dal i gael eu hamddifadu o addysg cyfrwng Cymraeg yn warth cenedlaethol, gyda'r anghyfartaledd ar ei waethaf ymysg cymunedau difreintiedig, mudwyr a phobl groenliw. Am nad ydyn nhw'n dod yn rhugl yn Gymraeg, mae'n debygol y bydd y bobl ifanc yma'n cael eu hallgáu o gyfleoedd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd am weddill eu bywydau. Ac mewn ardaloedd lle siaredir yr iaith gan fwyafrif y boblogaeth, mae nifer o bobl ifanc yn *colli* eu sgiliau iaith wrth fynd drwy'r system addysg oherwydd methiannau'r system 'ddwyieithog' a'r drefn asesu.

Mae Deddf Addysg Gymraeg Cymdeithas yr Iaith yn dangos bod modd i'r Llywodraeth ddatgan mewn statud y prif nod mai'r Gymraeg, erbyn 2050, fydd cyfrwng addysg yng Nghymru. Golyga hynny y byddai pob ysgol yn cael ei gosod ar lwybr sy'n symud yn gyson at sicrhau Addysg Gymraeg i Bawb erbyn y flwyddyn honno. Mae hefyd o fewn gallu'r Gweinidog i sicrhau mai Cymraeg fydd cyfrwng pob ysgol newydd ynghyd â chreu un llwybr dysgu ac un cymhwyster i bawb fydd yn dileu'r arfer cyfeiliornus o gynnig 'Cymraeg Ail Iaith' cwbl annigonol i'r mwyafrif tra bod lleiafrif yn cael cyfleoedd ieithyddol cyflawn.

Mae ein diolch yn fawr i Gymrawd Cyfraith Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru, Keith Bush, am ei gyfraniad allweddol i'r gwaith arbenigol o ddrafftio'r Ddeddf arfaethedig. Mae ei waith wedi galluogi Cymdeithas yr Iaith i droi ei pholisïau a'i gweledigaeth i iaith y gyfraith gan ddangos y ffordd ymlaen i'r Llywodraeth mewn ffordd hollol ymarferol. Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi cyfrannu sylwadau gwerthfawr ers i ni gyhoeddi ein Deddf ddrafft yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, gan ein galluogi i wneud newidiadau pwysig cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol hwn.

Pan fydd y Llywodraeth yn pasio ei Deddf Addysg Gymraeg ei hun, dim ond un o ddau ganlyniad all ddeillio o hynny. Un ai bydd y Gweinidog yn dewis taflu'r drysau ar agor i holl blant Cymru, neu fe fydd yn dewis dyfnhau'r anghyfartaledd ieithyddol drwy allgáu cenedlaethau'n rhagor o blant. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Byddai'r cynigion yn y Ddeddf hon yn gwireddu'r egwyddor honno o'r diwedd.

**Grŵp Addysg
Cymdeithas yr Iaith
Mai 2023**

Bil Addysg Gymraeg (Cymru) 2023

Nodiadau Esboniadol

Cyflwyniad

Pwrpas y nodiadau hyn yw hwyluso dealltwriaeth o'r Bil Addysg Gymraeg hwn a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith ym mis Mai 2023. Mae'r fersiwn hwn yn cynnwys nifer o ddiwygiadau a wnaed i'r fersiwn gwreiddiol, a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas ym mis Awst 2022, yn sgil yr ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad y Gymdeithas ar y fersiwn hwnnw.

Polisi

Nod y Bil yw rhoi effaith i bolisi'r Gymdeithas o drawsffurfio'r gyfundrefn addysg yng Nghymru i fod yn un drwyadl Gymraeg, dros gyfnod dichonadwy – sef erbyn 2050, er mwyn alinio gyda tharged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn honno. Elfen ganolog i hyn fyddai uno'r system addysg gyhoeddus yng Nghymru, gan droi bob ysgol a choleg, dros gyfnod o amser, yn un sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac o fewn ethos Cymraeg. Cred y Gymdeithas mai dyma'r unig ffordd i sicrhau y bydd pob disgybl a myfyriwr yng Nghymru yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn effeithiol ac felly'n medru cyfranogi'n llawn ym mywyd y genedl.

Cred y Gymdeithas hefyd ei bod yn hanfodol bod y Bil yn gosod ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddyletswyddau cyfreithiol clir. Dylent ymgorffori targedau mesuradwy, y gall cydymffurfiaeth â hwy, pe byddai angen, gael ei phrofi o flaen y llysoedd. **Nodiadau ar yr adrannau**

Adran 1

Ceir yma drosolwg o gynnwys y Bil.

Adran 2

Gosodir nod statudol, sef sicrhau mai'r Gymraeg fydd iaith addysg yng Nghymru erbyn 1 Medi 2050, fan bellaf. Yn y cyd-destun hwn, mae "addysg" yn cynnwys addysg mewn ysgolion a cholegau cyhoeddus a phreifat, addysg blynyddoedd cynnar ac addysg neu hyfforddiant ffurfiol sy'n rhan o gynllun prentisiaeth. Mae'n cael ei wneud yn glir bod y nod yn gymwys i addysg ar gyfer rhai sydd ag anghenion arbennig yn ogystal â'r rhai sydd heb anghenion felly. Mae darpariaethau eraill y Bil yn esbonio sut y bydd y modd o gyrraedd y nod yn ymateb i ofynion ymarferol pob sector.

Gwneir yn glir bod "addysg" yn cynnwys nid yn unig y cyfrwng dysgu ond hefyd cyflenwi gwasanaethau atodol fel gweinyddiaeth ac arlwyfaeth. Bydd yr iaith a ddefnyddir wrth gyflenwi'r gwasanaethau hynny'n effeithio ar "ethos" sefydliad ac felly ar effeithiolrwydd ei allu i addysgu'n effeithiol yn Gymraeg.

Cydnabyddir y bydd dysgu ieithoedd heblaw am y Gymraeg (gan gynnwys Saesneg) yn parhau i gael ei wneud drwy gyfrwng yr ieithoedd hynny. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer prifysgolion i ganiatáu iddynt ddysgu cyrsiau yn Saesneg os ydynt yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyrsiau cyfatebol yn Gymraeg.

Gosodir dyletswydd statudol ar bob awdurdod cyhoeddus ym maes addysg yng Nghymru i weithio tuag at gyrraedd y nod statudol, yn gyffredinol a thrwy gyflawni unrhyw ofynion penodol a osodir

arnynt gan fframwaith statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 3. Fel rhan o'r ddyletswydd gyffredinol i weithio tuag at gyflawni'r nod statudol, gofynnir i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'u disgrisiwn mewn perthynas â'u pwerau ariannol (er enghraifft wrth ddyfarnu grantiau) mewn modd sy'n unol â'r ddyletswydd honno.

Adran 3

Gosodir ar Weinidogion Cymru ddyletswydd i baratoi Fframwaith Addysg Gymraeg ("y fframwaith statudol") a fydd yn pennu'r camau y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod statudol. Rhaid i'r fframwaith statudol nodi pryd y bydd disgwyl i'r camau hynny cael eu cymryd. Mae'r adrannau dilynol yn ymwneud â chynnwys y fframwaith statudol a'r drefn a fydd yn rheoli'r prosesau o baratoi, cyhoeddi ac adolygu'r fframwaith.

Adran 4

Rhestrir egwyddorion y seilir y fframwaith arnynt. Un ohonynt yw newid darpariaeth addysg o fod yn un sy'n gwahaniaethu rhwng ysgolion a cholegau ar sail iaith addysg i un sy'n gosod ysgolion a cholegau ar lwybr sy'n arwain at un system Gymraeg unedig. Rhaid i'r fframwaith hefyd wahardd agor ysgolion neu golegau newydd na fyddant yn darparu addysg Gymraeg, yn ogystal â gwneud unrhyw newid yng nghymeriad neu reolaeth ysgolion a cholegau a fyddai'n groes i'r nod statudol.

Adran 5

Gwneir yn glir y bydd yn rhaid i'r fframwaith bennu camau ymarferol pendant, gyda thargedau clir a mesuradwy, a dyddiadau pendant ar gyfer cwblhau cymryd y camau hynny. Rhaid i'r fframwaith bennu darpariaethau ar gyfer gwahanol sectorau addysg a gall wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol awdurdodau, ardaloedd a sectorau.

Adran 6

Rhaid i'r fframwaith hefyd gynnwys darpariaeth benodol mewn perthynas ag addysg blynyddoedd cynnar (a darpariaeth ragarweiniol i addysg felly, fel grwpiau chwarae) gyda golwg ar sicrhau darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob plentyn.

Adran 7

Rhaid i'r fframwaith hefyd gynnwys darpariaethau manwl i sicrhau cynllunio gweithlu effeithiol. Bydd rhaid asesu'r nifer o staff bydd eu hangen i gyflawni'r nod statudol, y sgiliau y bydd arnynt eu hangen, a sut y bydd y staff hynny'n cael eu recriwtio a'u hyfforddi. Bydd rhaid i'r asesiad hwnnw gael ei seilio ar arolygon digonol, o bryd i'w gilydd, o'r anghenion hynny.

Adran 8

Rhaid i'r fframwaith ddarparu ar gyfer sicrhau bod y drefn arholiadau bresennol, sy'n cynnig cymwysterau gwahanol "Cymraeg" a "Chymraeg Ail Iaith" yn dod i ben, a sicrhau'r un cymwysterau Cymraeg ar gyfer pawb.

Adran 9

Rhaid i'r fframwaith statudol ddarparu ar gyfer rhwydwaith cynhwysfawr o ganolfannau trochi ar gyfer rhai sy'n ymuno â'r system addysg Gymraeg o'r tu allan er mwyn eu galluogi i ddod yn rhan o'r system honno mor fuan â phosibl.

Adran 10

Derbynnir bod yna rai mathau o ddarpariaeth addysg, er enghraifft ysgolion preifat, lle bydd y gallu i newid iaith addysg, o leiaf yn y tymor byr, yn fwy cyfyngedig. Bydd yn rhaid i'r fframwaith, serch hynny, gynnwys darpariaeth ar gyfer hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd hynny.

Adran 11

Dyma'r adran sy'n amlinellu'r broses o baratoi a chyhoeddi'r fframwaith statudol.

Bydd rhaid i ddrafft ohono gael ei baratoi o fewn 12 mis ar ôl i'r Bil ddod yn Ddeddf. Ar ôl cynnal ymgynghoriad ar y drafft, a diwygio'r drafft mewn ymateb i'r sylwadau a wneir arno, bydd rhaid iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru a'i ystyried gan bwyllgor Seneddol. Rhaid i Lywodraeth Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, gyhoeddi'r drafft terfynol o'r fframwaith. Bydd angen i'r fframwaith gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru o leiaf unwaith bob pum mlynedd ac, os bydd angen diwygiadau i'r fframwaith, cyhoeddir fersiwn diwygiedig o'r fframwaith, gan ddilyn proses debyg i'r un wreiddiol.

Adran 12

Gofynnir i Lywodraeth Cymru, yn flynyddol, baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol tuag at gyrraedd y nod statudol.

Adran 13

Newidir swyddogaethau Estyn er mwyn cynnwys asesu i ba raddau y llwyddodd ysgolion ac awdurdodau addysg i gyfrannu at y nod statudol, yn unol â'r fframwaith statudol.

Adran 14

Diddymir y drefn bresennol o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ond rhoddir pŵer i Weinidogion i ohirio gwneud hynny nes y bydd darpariaethau'r fframwaith statudol (a fydd yn cymryd eu lle) mewn grym.

Adran 15

Cryfheir hawl disgyblion a myfyrwyr i gael teithio i ysgol neu goleg, gan estyn trefniadau teithio o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i gynnwys pawb sy'n gorfod cael eu cludo er mwyn medru derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru hefyd arfer eu pwerau o dan y Mesur hwnnw i estyn trefniadau teithio i wneud addysg blynyddoedd cynnar yn Gymraeg yn hygyrch i bob plentyn o'r oedran perthnasol.

Adran 16

Estynnir pwerau sydd eisoes gan Weinidogion Cymru i ymyrryd lle bydd awdurdod lleol yn methu â chyflawni swyddogaethau penodol mewn perthynas ag addysg fel y byddant ar gael os bydd awdurdod yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Adran 17

Diffinnir rhai o'r termau a ddefnyddir yn y Bil.

Adran 18

Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn cynnwys darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed i ddeddfwriaeth arall os bydd angen gwneud hynny o ganlyniad i'r Ddeddf.

Adran 19

Yn gyffredinol, bydd darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym drannoeth y diwrnod ar ôl iddi dderbyn y Cydsyniad Brenhinol. Yr eithriadau yw adran 14 a'r rhan o adran 15 sy'n ymwneud â threfniadau estynedig ar gyfer teithio i ysgol neu goleg, a ddaw i rym yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 20

Datgenir mai "Deddf Addysg Gymraeg (Cymru)" yw enw byr y Ddeddf.

Mai 2023

Deddf Addysg Gymraeg (Cymru) 202-

Deddf Senedd Cymru i osod nod statudol o sicrhau mai'r Gymraeg fydd iaith addysg yng Nghymru erbyn 1 Medi 2050, gan osod dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau cyflawni'r nod hwnnw, ac at ddibenion cysylltiedig.

CYNNWYS

1	Trosolwg
2	Y nod statudol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg
3	Fframwaith Addysg Gymraeg
4	Egwyddorion y fframwaith statudol
5	Cynnwys y fframwaith statudol
6	Addysg blynyddoedd cynnar
7	Cynllunio gweithlu
8	Cymwysterau cynhwysol
9	Cyfundrefn trochi
10	Addysg y tu allan i'r system gyhoeddus
11	Paratoi a chyhoeddi'r fframwaith statudol
12	Adroddiadau blynyddol
13	Swyddogaethau'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant
14	Diddymu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg
15	Trefniadau teithio gan ddysgwyr
16	Gorfodi
17	Dehongli
18	Darpariaeth atodol
19	Dod i rym
20	Enw byr

1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon-

- (a) yn gosod nod statudol ar gyfer y system addysg yng Nghymru, sef sicrhau mai'r Gymraeg, erbyn 1 Medi 2050 fan bellaf, fydd iaith addysg yng Nghymru (adran 2),
- (b) yn gosod ar awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) ddyletswydd gyfreithiol gyffredinol i sicrhau cyflawni'r nod statudol trwy arfer eu pwerau mewn perthynas ag addysg mewn ffordd
 - (i) sy'n gyson â'r nod hwnnw (adran 2(4)(a)(i)) ac
 - (ii) sy'n unol â gofynion fframwaith statudol ("Fframwaith Addysg Gymraeg") (adran 2(4)(a)(ii)),
- (c) yn gosod ar awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) ddyletswydd gyfreithiol i hybu'r nod statudol trwy esbonio i rieni, disgyblion a myfyrwyr fanteision addysg Gymraeg (adran 2(4)(b)),
- (ch) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r fframwaith statudol (adran 3),
- (d) yn rhagnodi'r egwyddorion y seilir y fframwaith statudol arnynt (adran 4) a'r materion y bydd yn rhaid iddo'u cynnwys (adrannau 5 i 10),
- (dd) yn rhagnodi'r weithdrefn o baratoi, cyhoeddi ac adolygu'r fframwaith statudol (adran 11),
- (e) yn darparu ar gyfer adroddiadau blynyddol a fydd yn mesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r nod statudol, y bydd yn rhaid eu gosod o flaen Senedd Cymru (adran 12),
- (f) yn ychwanegu at swyddogaethau'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant ("Estyn") y swyddogaeth o adrodd ar gyfraniad ysgolion (ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol eraill) at gyflawni'r nod statudol (adran 13),
- (ff) yn diddymu'r system bresennol o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (system a fydd yn cael ei disodli gan y drefn o dan y Ddeddf hon) (adran 14),
- (g) yn cryfhau hawliau disgyblion ysgol a myfyrwyr colegau addysg bellach mewn perthynas â threfniadau teithio i ysgol neu goleg sy'n darparu addysg (neu addysg mewn pynciau penodol) trwy gyfrwng y Gymraeg (adran 15(1)),
- (ng) yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddefnyddio eu pwerau deddfwriaethol i sicrhau trefniadau teithio ar gyfer plant sy'n mynychu addysg blynyddoedd cynnar Gymraeg er mwyn hyrwyddo cyflawni'r nod statudol,
- (h) yn cymhwyso'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i ymyryd mewn awdurdod lleol ar sail methiannau ar ran yr awdurdod hwnnw mewn perthynas â swyddogaethau addysg, fel bod y pwerau hynny ar gael (yn unol â'r amodau a ragnodir gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) mewn achos o fethiant gan yr awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf hon.
- (i) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â dehongli, darpariaeth atodol a dod â'r Ddeddf i rym a'i henw (adrannau 16, 17, 18 ac 19).

2 Y nod statudol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg

- (1) Yn y Ddeddf hon, (a) ystyr y “nod statudol” (“*the statutory aim*”) yw sicrhau mai’r Gymraeg fydd iaith addysg yng Nghymru, a hynny
 - (i) erbyn 1 Medi 2050,
 - (ii) cyn hynny os yw’n ymarferol bosibl,
- (b) mae “addysg” (“*education*”) yn cynnwys (oni bai fod y cyd-destun yn awgrymu’n wahanol),
 - (i) addysg mewn ysgolion a cholegau cyhoeddus,
 - (ii) addysg mewn ysgolion a cholegau preifat,
 - (iii) addysg blynyddoedd cynnar,
 - (iv) addysg neu hyfforddiant ffurfiol sy’n rhan o gynllun prentisiaeth,
 - (v) addysg ar gyfer rhai sydd ag anghenion addysg arbennig neu ychwanegol yn ogystal ag addysg ar gyfer rhai sydd heb anghenion felly
- (2) Mae ystyr “iaith addysg” (“*the language of education*”) yn y nod statudol yn cynnwys (yn ddarostyngedig i is-adran (3)) nid yn unig cyfrwng addysgu ond hefyd, i’r graddau eu bod yn berthnasol i effeithiolrwydd addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg,
 - (a) gweinyddu sefydliadau sy’n cyflenwi addysg, a
 - (b) darparu gwasanaethau ar gyfer y sefydliadau hynny.
- (3) Nid yw’r nod statudol yn gymwys i’r iaith a ddefnyddir,
 - (a) wrth ddysgu iaith a llenyddiaeth unrhyw iaith heblaw’r Gymraeg,
 - (b) mewn perthynas ag unrhyw gwrs mewn prifysgol a ddysgir trwy gyfrwng y Saesneg os bydd darpariaeth gyfwerth hefyd yn cael ei gwneud gan y brifysgol honno i ddysgu cynnwys y cwrs hwnnw trwy gyfrwng y Gymraeg.
- (4) Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus sy’n arfer swyddogaethau yng Nghymru mewn perthynas ag addysg sicrhau cyflawni’r nod statudol, gan (a) arfer y swyddogaethau hynny
 - (i) yn gyffredinol, mewn ffordd sy’n gyson â’r nod statudol, ac
 - (ii) yn unol ag unrhyw ofynion penodol y fframwaith statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 3, a
- (b) cymryd camau ymarferol i hyrwyddo’r nod statudol trwy (ymhlith pethau eraill) esbonio i rieni, disgyblion a myfyrwyr fanteision addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- (5) Mae’r cyfeiriad yn is-adran (4) at swyddogaethau mewn perthynas ag addysg yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, pwerau ariannol, fel y pŵer i roi grantiau neu gymorth ariannol arall i awdurdodau a sefydliadau sy’n darparu addysg.
- (6) Wrth arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â’r pwerau ariannol y cyfeirir atynt yn is-adran (5) ynglŷn ag addysg, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys

Gweinidogion Cymru, wneud hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r graddau y mae'r sawl a fyddai'n elwa o'r grant neu gymorth ariannol arall wedi gweithredu, ac yn debygol o weithredu, yn unol a'i ddyletswydd i sicrhau cyflawni'r nod statudol a gofynion y fframwaith statudol.

3 Fframwaith Addysg Gymraeg

Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Fframwaith Addysg Gymraeg ("y fframwaith statudol") (*"the statutory framework"*) a fydd yn pennu—

- (a) y camau y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) eu cymryd, wrth arfer eu pwerau statudol mewn perthynas ag addysg, er mwyn cyflawni'r nod statudol, a
- (b) erbyn pryd y disgwylir iddynt gychwyn a chwblhau'r camau hynny.

4 Egwyddorion y fframwaith statudol

Rhaid i'r fframwaith statudol ymgorffori'r egwyddorion canlynol, sef

- (a) sicrhau cyflawni'r nod statudol,
- (b) newid y system addysg gyhoeddus o fod yn un sy'n gwahaniaethu rhwng ysgolion ar sail iaith addysg i un lle bydd ysgolion a cholegau, tra na fydd y nod statudol eto wedi ei gyrraedd mewn perthynas â hwy, yn cael eu lleoli ar lwybr sy'n arwain yn barhaus at gyflawni'r nod statudol,
- (c) na chaniateir defnyddio swyddogaethau mewn perthynas ag addysg er mwyn
 - (i) sefydlu unrhyw ysgol neu goleg newydd oni bai bod yr ysgol honno neu'r coleg hwnnw (yn ddarostyngedig i adran 2(3)(a)) yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig
 - (ii) newid cymeriad na threfniadau rheolaeth unrhyw ysgol neu goleg sydd eisoes yn bodoli os bydd hynny'n golygu pellhau oddi wrth gyflawni'r nod statudol.

5 Cynnwys y fframwaith statudol

- (1) Yn ogystal â'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn adrannau 6, 7, 8, 9 a 10, rhaid i'r fframwaith statudol bennu, ymhlith pethau eraill,
 - (a) targedau clir a mesuradwy ar gyfer cyrraedd y nod statudol,
 - (b) camau ymarferol y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) eu cymryd, gan arfer eu pwerau statudol, i sicrhau cyflawni'r targedau hynny, a
 - (c) dyddiadau erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r targedau a'r camau hynny gael eu cyflawni.
- (2) Mae'r cyfeiriad at "pwerau statudol" awdurdodau yn is-adran (1)(b) yn cynnwys, ymhlith pethau eraill y pwerau ariannol y cyfeirir atynt yn adran 2(6).
- (3) Rhaid i'r fframwaith gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer y sectorau addysg canlynol –
 - (a) addysg blynyddoedd cynnar,
 - (b) addysg gynradd,
 - (c) addysg uwchradd,

- (ch) addysg anghenion dysgu ychwanegol,
 - (d) addysg bellach, (dd) addysg uwch.
- (4) Caiff y fframwaith wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â
- (a) mathau gwahanol o awdurdod;
 - (b) mathau gwahanol o addysg;
 - (c) ardaloedd gwahanol;
 - (ch) unrhyw ffactor perthnasol arall.

6 Addysg blynyddoedd cynnar

- (1) Rhaid i'r fframwaith ragnodi camau, gan gynnwys unrhyw rai deddfwriaethol angenrheidiol, sydd i'w cymryd gan Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau y bydd pob plentyn sydd heb gyrraedd oedran addysg gynradd yn medru derbyn addysg blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.
- (2) Rhaid i'r camau hynny gynnwys unrhyw rai sy'n angenrheidiol er mwyn hybu a chynnal darpariaeth ragarweiniol i'r addysg honno, er enghraifft grwpiau chwarae Cymraeg ar gyfer babanod a phlant bach.
- (a) cyn llunio'r darpariaethau yn y fframwaith statudol sy'n ymwneud â'r adran hon, wneud arolwg digonol o alluoedd yn y Gymraeg y rhai sydd eisoes mewn swyddi sy'n ymwneud â darparu addysg,
 - (a) er mwyn ystyried priodoldeb unrhyw addasiadau i'r fframwaith statudol yn unol ag adran 11(3), adolygu, o bryd i'w gilydd, gasgliadau'r arolwg hwnnw, gan wneud arolygon tebyg pellach os oes angen.

7 Cynllunio gweithlu

- (1) Rhaid i'r fframwaith statudol gynnwys
- (a) asesiad o
 - (i) nifer y staff, gan gynnwys athrawon, hyfforddwyr, darlithwyr, gweithwyr cymorth addysgu, darparwyr addysg blynyddoedd cynnar ac eraill,
 - (ii) y sgiliau angenrheidiol, gan gynnwys gallu yn y Gymraeg
 - (b) datganiad o'r camau y bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) eu cymryd er mwyn sicrhau y bydd nifer y staff fydd ar gael i'w cyflogi gan ysgolion a cholegau, a sgiliau'r staff hynny, yn ddigon i ateb gofynion y fframwaith statudol.
- (2) Rhaid i'r camau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b) gynnwys (ymhlith pethau eraill) trefniadau ar gyfer
- (a) sicrhau y bydd hyfforddiant athrawon, hyfforddwyr, darlithwyr, gweithwyr cymorth addysgu a darparwyr addysg blynyddoedd cynnar, yn eu galluogi i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a
 - (b) galluogi'r rhai sydd eisoes mewn swyddi sy'n ymwneud â darparu addysg, neu sy'n gymwys ar gyfer swyddi felly, i ddatblygu a gwella eu gallu i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyn llunio'r darpariaethau yn y fframwaith statudol sy'n ymwneud â'r adran hon, wneud arolwg digonol o alluoedd yn y Gymraeg y rhai sydd eisoes mewn swyddi sy'n ymwneud â darparu addysg,

(a) er mwyn ystyried priodoldeb unrhyw addasiadau i'r fframwaith statudol yn unol ag adran 11(3), adolygu, o bryd i'w gilydd, gasgliadau'r arolwg hwnnw, gan wneud arolygon tebyg pellach os oes angen.

8 Cymwysterau cynhwysol

(1) Rhaid i'r fframwaith statudol gynnwys camau er mwyn cyrraedd y nod o ddiddymu unrhyw gymwysterau addysgol sy'n gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr "iaith gyntaf" ac "ail iaith" (er enghraifft arholiadau TGAU "Cymraeg" a "Cymraeg Ail Iaith") a disodli'r cymwysterau hynny gan rai sy'n gymwys i bob ymgeisydd yn ddi-wahân.

(2) Rhaid i'r camau hynny sicrhau y bydd y nod hwnnw'n cael ei gyrraedd erbyn 1 Awst 2030 fan bellaf.

9 Cyfundrefn trochi

Rhaid i'r fframwaith statudol gynnwys camau i sefydlu ac i gynnal rhwydwaith o ganolfannau trochi iaith ar gyfer darpar ddisgyblion a myfyrwyr, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol, na fyddai eu gallu yn y Gymraeg, fel arall, yn ddigonol i gyfranogi'n effeithiol mewn addysg yn yr iaith honno, a fydd yn eu galluogi i wneud hynny, ac a fydd yn hygyrch i ddisgyblion a myfyrwyr ysgol ym mhob ran o Gymru.

10 Addysg y tu allan i'r system gyhoeddus

(1) Yn yr adran hon, ystyr addysg sydd y tu allan i'r system addysg gyhoeddus yw

(a) addysg mewn ysgolion neu golegau preifat, a

(b) addysg neu hyfforddiant ffurfiol

(i) sy'n rhan o gynllun prentisiaeth, ac

(ii) nad yw'n cael ei darparu mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch.

(2) Rhaid i'r fframwaith statudol gynnwys camau er mwyn hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu mewn addysg sydd y tu allan i'r system addysg gyhoeddus.

11 Paratoi a chyhoeddi'r fframwaith statudol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru

(a) baratoi a chyhoeddi drafft o'r fframwaith statudol heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl i'r Ddeddf hon dderbyn y Cydsyniad Brenhinol,

(b) ymgynghori ynglŷn â'r drafft hwnnw gyda

(i) awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys cyrff llywodraethol ysgolion a cholegau) sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru mewn perthynas ag addysg,

(ii) Comisiynydd y Gymraeg;

(iii) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol;

- (iv) Comisiynydd Plant Cymru;
 - (v) y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant,
 - (vi) cyrff sy'n cynrychioli staff
 - (vii) unrhyw rai eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol,
- (c) mor fuan â phosibl ar ôl diwedd yr ymgynghoriad, osod y drafft (gyda pha bynnag addasiadau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol yn sgil yr ymgynghoriad) gerbron Senedd Cymru.
- (ch) ystyried unrhyw argymhellion a wneir ar y drafft gan Senedd Cymru neu un o'i phwyllgorau.
- (d) osod, os dymument, ddrafft pellach o'r fframwaith statudol, gydag unrhyw addasiadau sy'n ymddangos yn briodol yn sgil yr argymhellion hynny.
- (dd) gyhoeddi'r fframwaith statudol, yn unol â drafft a gymeradwywyd gan Senedd Cymru.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru, o leiaf unwaith bob pum mlynedd,
- (a) adolygu'r fframwaith statudol, a
 - (b) cyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad hwnnw, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill,
 - (i) eu hasesiad o'r cynnydd a gafwyd, yn unol â'r fframwaith statudol, tuag at gyrraedd y nod statudol,
 - (ii) datganiad o'r dystiolaeth y seiliwyd yr asesiad hwnnw arno, a
 - (iii) sut y bwriadant i'r fframwaith statudol gael ei addasu, os o gwbl, er mwyn cyrraedd y nod statudol.
- (3) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, ei bod yn briodol addasu'r fframwaith statudol, rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi drafft o'r addasiadau arfaethedig a'i gyhoeddi. Bydd is-adran (1) a (2) yn gymwys i'r drafft hwnnw.
- (4) Bydd cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at y fframwaith statudol yn cynnwys y fframwaith fel mae'n sefyll o bryd i'w gilydd gan gynnwys unrhyw addasiadau a wnaed yn unol ag is-adran (3).

12 Adroddiadau blynyddol

Rhaid i Weinidogion Cymru, mor fuan â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn academiaidd,

- (a) baratoi adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn academiaidd honno tuag at gyflawni'r nod statudol,
- (b) gyhoeddi'r adroddiad hwnnw,
- (c) ei osod gerbron Senedd Cymru.

13 Swyddogaethau'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant

Mewnosoder yn adran 20(1) o Ddeddf Addysg 2005 (c18)-

“(h) the extent to which those schools, the management of those schools and the exercise by public authorities of their functions in relation to those schools are contributing to the

statutory aim set by the Welsh Language Education (Wales) Act 202- and in accordance with such steps as they are required to take under the Welsh Language Education Framework published under that Act.” 14

Diddymu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

- (1) Diddymir Rhan 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg).
- (2) Rhaid i unrhyw orchymyn a ddaw â'r adran hon i rym (o dan adran 18(1)) gynnwys, yn unol ag adran 18(2), ddarpariaeth drosiannol a fydd yn sicrhau y bydd darpariaethau unrhyw Gynllun Strategol sydd mewn grym yn parhau mewn grym nes bod darpariaeth gyfatebol a fydd yn cael ei chynnwys yn y fframwaith statudol yn weithredol.

15 Trefniadau teithio gan ddysgwyr

- (1) Yn adran 3 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mewnosoder:

“(6A) At ddibenion paragraff (b) yn ail golofn y tabl yn yr adran hon, nid yw'r ysgol, yr uned neu'r sefydliad yn addas i'r plentyn, disgybl neu fyfyrwr

 - (a) os nad yw'r ysgol, uned neu sefydliad yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, naill ai'n gyffredinol neu ar gyfer pwnc penodol, a
 - (b) os yw'r rhiant neu berson arall sydd â gofal dros y plentyn, disgybl neu fyfyrwr (neu'r disgybl neu fyfyrwr os yw'r disgybl neu fyfyrwr wedi cyrraedd 18 oed) yn dymuno i'r plentyn, disgybl neu fyfyrwr fanteisio ar drefniadau teithio er mwyn medru derbyn addysg mewn ysgol, uned neu sefydliad sy'n darparu addysg, naill ai'n gyffredinol neu ar gyfer pwnc penodol, trwy gyfrwng y Gymraeg.”
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn blwyddyn i'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, wneud rheoliadau o dan adran 8 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau teithio a fydd yn sicrhau bod addysg blynyddoedd cynnar Gymraeg yn hygyrch i bob plentyn o'r oedran perthnasol.

16 Gorfodi

Rhaid dehongli'r cyfeiriadau at “swyddogaeth addysg” yn Rhan 2 Pennod 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“Ymyrryd mewn awdurdodau lleol”) fel eu bod yn gymwys i unrhyw ddyletswydd a roddir ar awdurdod lleol o dan adran 2(4) uchod.

17 Dehongli

Yn y Ddeddf hon –

- (a) mae “awdurdodau cyhoeddus” (“*public authorities*”) yn cynnwys unrhyw berson neu gorff sy'n arfer swyddogaethau statudol ac yn cynnwys, ymhlith awdurdodau eraill, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chyrrff llywodraethol ysgolion a cholegau,
- (b) dehonglir “addysg gynradd” (“*primary education*”), “addysg uwchradd” (“*secondary education*”), ac “addysg bellach” (“*further education*”) yn unol â Deddf Addysg 1996
- (c) mae i “addysg blynyddoedd cynnar” (“*early years education*”) yr un ystyr â “nursery education” yn Neddf Addysg 1998,

(ch) dehonglir “addysg anghenion dysgu ychwanegol” (“*additional learning needs education*”) yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018,

(d) dehonglir “addysg uwch” (“*higher education*”) yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988.

18 Darpariaeth atodol


- (1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu’n hwylus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi, cânt drwy reoliadau wneud—
 - (a) unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol;
 - (b) unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill) ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr “deddfiad” (“*enactment*”) yw deddfiad, pa bryd bynnag y’i deddfir neu y’i gwneir, sydd wedi ei gynnwys yn un o’r canlynol neu wedi ei wneud o dan un ohonynt—
 - (a) Deddf Seneddol,
 - (b) Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (c) Deddf Senedd Cymru.
- (4) Mae’r pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon —
 - (a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;
 - (b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;
- (5) Ni chaniateir i offeryn statudol a wneir o dan yr adran hon ac sy’n diwygio neu’n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol, Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf Senedd Cymru gael ei wneud oni bai bod drafft o’r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo gan Senedd Cymru drwy benderfyniad.
- (6) Caiff unrhyw offeryn statudol arall a wneir o dan yr adran hon ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

19 Dod i rym

- (1) Daw adrannau 14 ac 15(1) i rym ar y diwrnod neu’r diwrnodau a bennir gan Weinidogion Cymru gan orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.
- (2) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1)—
 - (a) gwneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed;
 - (b) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.
- (3) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol.

20 Enw byr

Enw byr y ddeddf hon yw Deddf Addysg Gymraeg (Cymru) 202-.

cymdeithas  o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais
dros y gymraeg a chymunedau cymru
fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid

Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **16 Mehefin 2023** i:

Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

Cwestiynau o'r ddogfen 'Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg'

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys mewn Bil ddarpariaeth ynghylch y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credir bod hwn yn ddatganiad allweddol a rydd statws a hygredded i'r targed. Pwysleisir pwysigrwydd y targed i'r holl randdeiliaid. Gesyd hyn amcanion y llywodraeth yn gwbl glir fel nod o gyrraedd y boblogaeth yn ehangach a nodi'r cyfrifoldeb ar nifer randdeiliaid er mwyn gweithio tuag at y targed.

Yn dilyn canlyniadau'r Cyfrifiad, daw'n amlwg bod angen dulliau gweithredu sylweddol amgen er mwyn gweithio tuag at nod Cymraeg 2050 ac mae hyn yn amlwg yn elfen allweddol o hynny.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yn sicr, dylid cynnwys awdurdodau lleol wrth weithio at y deilliant hwn gan fod ffigurau ceidwadol wedi'u cynnwys mewn cynlluniau CSCAau'r awdurdodau lleol yn y gorffennol na fyddai mewn gwirionedd yn ychwanegu'n sylweddol at fedrau Cymraeg mewn nifer o awdurdodau lleol ac mae'r cynlluniau hynny'n amrywiol ar draws nifer o awdurdodau addysg. Gwelir bod angen mwy o gysondeb, felly.

Gwelir bod y nod hwn yn uchelgeisiol a bydd angen datblygu ac uwchsgilio sylweddol ar y gweithlu presennol, yn benodol, ond nid yn unig, yn y sector cynradd ac uwchradd Saesneg.

Credir y gellid lleihau ar ddyblygu adnoddau a chyfleoedd wrth fapio darpariaeth ac annog cydweithio agosach rhwng rhanddeiliaid e.e. prifysgolion, consortia, y cynllun sabothol a darparwyr Cymraeg i Oedolion.

Gellid ystyried hyblygrwydd yn y targed o B2 o ran yr hyn sy'n addas ar gyfer eu rolau a'r sector. Mae angen ymchwil ynghylch yr hyn a olygir gan B2, a disgwyliadau hynny yn ôl y CEFR a'r hyn y mae dysgwyr presennol yn ei gyrraedd wrth adael addysg statudol, yn y sector Gymraeg a'r sector Saesneg.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deiliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod ?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Gwelir bod gan Weinidogion Cymru rôl allweddol yn hyn o beth ac y gellid eu hystyried yn arwain drwy esiampl. Byddai gan Weinidogion rôl allweddol yn arwain, yn hyrwyddo ac yn hwyluso cydweithio rhwng rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru.

Gwelir bod lle i greu Cynllun statudol caffael a dysgu'r Gymraeg wedi'i arwain gan y Llywodraeth. Dylid ymgorffori targedau penodol ar gyfer y gweithlu addysg yn hyn a dylid gosod amserlen er mwyn ei adolygu oddi mewn i bob tymor seneddol.

Gellid tybio y bydd angen comisiynu ymchwil a gwerthusiadau annibynnol.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai dyletswydd fod ar Weinidogion Cymru i ddatgan y continwfm sgiliau Gymraeg?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Byddai sicrhau dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn a olygir gan y continwfm yn fan cychwyn addas.

Mae'r [Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg ar gyfer Ymarferwyr Addysg](https://hwb.gov.wales/api/storage/2dcc47ea-06e9-46ea-85bd-b1b0a927bd34/language-competency-framework-for-education-practitioners-final-web-framework-w-21220.pdf) yn cynnig fframwaith ar gyfer y gweithlu addysg a gelli ymhelaethu ar hyn er mwyn cynnwys rhagor o fanylder o ran patrymau a geirfa. Cynigir hyfforddiant dan ddarparwyr AGA o ran gwella sgiliau iaith a sicrhau dealltwriaeth darpar athrawon o'u sgiliau ond mae angen sicrhau dealltwriaeth o'r sgiliau hynny ar draws y gweithlu hefyd e.e. beth mae hyn yn ei olygu i fentoriaid a gwirwyr allanol athrawon ANG? Beth yw'r rhaglen ddatblygu ar eu cyfer? Sut gallant barhau i ddangos datblygiad yn y Gymraeg?

Gweler hefyd fod nifer fawr yn gweld llwyddiant yn gwella'u sgiliau iaith yn sylweddol ar y cynllun sabothol, ond beth yw'r cynllun iddyn nhw barhau i wella'u sgiliau iaith? Ystyrir yn benodol y cynorthwyr ar lefel Mynediad, er enghraifft.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Byddai creu cyfundrefn statudol yn hwyluso'r cynllunio strategol bwriadus ar gyfer y sector addysg mewn modd unffurf ar draws Cymru. Galluogai creu system statudol o gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith feini prawf clir, yn gosod eglurdeb a thryloywder i rieni, dysgwyr, y gweithlu a rhanddeiliaid.

Cynigia gategoreiddio anstatudol fodel priodol ac adeiladol, a noda is-gategoriâu trosiannol lwybr clir ar gyfer cynllunio strategol o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau'r categorïau mewn rheoliadau?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Byddai hyn yn sicrhau cysondeb a thryloywder. Dylid rhoi'r dyletswydd hon ar Weinidogion Cymru.

Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn am gynnwys isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg? Beth yw eich barn am effeithiau isafswm o'r fath ar ysgolion, dysgwyr a staff? A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill?

Sylwadau ategol

Bydd gosod isafswm o ddarpariaeth o ran amser a ddarperir ar gyfer ysgolion, dysgwyr a staff yn angenrheidiol os bydd y nod o gyrraedd B2 yn bosib. Bydd angen buddsoddi'n sylweddol mewn uwchsgilio'r gweithlu presennol o ran sgiliau iaith ac addysgeg. O ran cwestiwn cwbl ymarferol, o ble y daw'r oriau i ryddhau'r gweithlu i ddysgu'r iaith? Gwelir bod cyllidebau ysgolion eisoes wedi'u gwasgu a bod ysgolion Cymraeg yn ei chael yn anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi sydd â lefelau iaith digonol er mwyn cwrdd ag anghenion eu disgyblion. Os ydym am gadw rhieni'n gadarnhaol ynghylch y datblygiad hwn, rhaid sicrhau bod sicrwydd na fydd addysg disgyblion yn dioddef yn y cyfamser.

Sut y bydd hyn yn cael ei wireddu o fewn oriau presennol yr ysgol?

Ystyriaeth arall yw cynnwys yr hyn a ddysgir yn y ddarpariaeth hon. Yn y cynradd, gellid cynyddu'r oriau'n sylweddol a dysgu dysgwyr yn llwyddiannus, ond wrth gyrraedd yr uwchradd y gellid gweld nad yw dysgwyr wedi dysgu'r un patrymau na phynciau ac felly yn yr uwchradd bydd yn anodd diwallu anghenion pawb. O ran hynny, a ellid ystyried bod dealltwriaeth o batrymau cyffredin yn y cynradd, o leiaf o fewn clwstwr o ysgolion sy'n bwydo'r un ysgolion uwchradd, gan ystyried wrth gwrs yr angen i gael cyd-destun lleol a 'Chynefin'.

--

Cwestiwn 8 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 51 i 56 ynghylch gosod ysgolion mewn categori ieithyddol a rôl gymeradwyo yr awdurdod lleol yn y broses?

Sylwadau ategol

<p>Cefnogir cynllunio strategol gan Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol er mwyn gosod targedau ar awdurdodau lleol.</p> <p>Credir bod angen darlun mwy cyflawn o anghenion ieithyddol gweithlu pob ysgol a sefyllfa ieithyddol pob ysgol o fewn awdurdod lleol.</p> <p>Dylid sicrhau bod eglurder ar bennu categori iaith ar gyfer ysgolion unigol, penaethiaid, y consortia a'r awdurdodau lleol, rhieni a dysgwyr. Dylid ei gwneud yn glir beth yw'r llinyn atebolrwydd gan fod sefyllfaoedd annifyr iawn wedi codi i staff rhai ysgolion yn y gorffennol wrth newid categori iaith. Credir bod rôl gymeradwyo'r awdurdod lleol yn allweddol.</p> <p>A oes rôl i arbenigwyr ieithyddol y tu mewn a'r tu allan i faes addysg gyfrannu at hyn er mwyn cynyddu'r capasiti presennol a chydweithio er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau creadigol?</p>

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

<p>Cytunir yn llwyr â'r egwyddor.</p> <p>Yn sicr, a gwelir nifer o enghreifftiau o arfer dda o ysgolion yn gwneud hyn drwy uwchsgilio eu gweithlu drwy fodd y cynllun sabothol cenedlaethol. Er llwyddiant y cynllun a'i effaith gadarn, nifer gyfyngedig o leoedd a welir bob blwyddyn o fewn y cynllun presennol. Dylid comisiynu ymchwil er mwyn gweld effeithiolrwydd y cynllun ar ysgolion fel ffordd o newid arfer ysgol gyfan.</p> <p>Dengys ymchwil fod mwy o ddarpariaeth drwy gyfrwng iaith leiafrifol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd ieithyddol.</p> <p>Rhaid ystyried yn llawn dystiolaeth gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac ystyried demograffeg ardaloedd penodol o Gymru wrth gynllunio a gosod targedau ar gyfer awdurdodau lleol. Credir bod hon yn elfen hollbwysig.</p>

Cwestiwn 10 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 57 i 60 ynghylch y broses o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion?

Cytunir â 57-60.

Paragraff 60: dylid manylu ar ddefnydd y Gymraeg yn ei chyfanrwydd o fewn bywyd ysgol disgyblion, yn gymdeithasol a'r tu allan i wersi, er enghraifft,

- Gweithgareddau allgyrsiol, sydd wedi'i heffeithio'n fawr gan Cofid, yr argyfwng costau byw a chyllidebau ysgolion
- polisi iaith ar gyfer siaradwyr gwadd neu ymwelwyr â'r ysgol
- darpariaeth ieithyddol ar gyfer clybiau, gweithgareddau hamdden, diwylliannol o fewn a'r tu allan i'r ysgol
- polisi iaith wrth gyfathrebu gyda rheini, llywodraethwyr a chefnogwyr.
- darpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant, gan gynnwys gwasanaethau ADY, ac iaith a lleferydd yn benodol.

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64 ynghylch monitro cynnydd ysgolion?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunir gyda'r drefn a gynigir, gan gynnwys galluogi i Estyn gynnal adolygiad, o dan yr amgylchiadau a nodir.

Cwestiwn 12 – Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

Sylwadau ategol

Er y sylweddolir bod hyn yn anodd, dylid gosod rhagdybiaeth ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai unrhyw ysgol newydd, fel ym mharagraff 67. Gosodai hyn yr egwyddor mai cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yw'r ffordd ymlaen ym mhob awdurdod lleol a thynnai hyn y cyfrifoldeb oddi ar ymgyrchwyr e.e. RHAG, i ddadlau eu hachos. Gwelwyd siom yn ddiweddar e.e. yn ardal Casnewydd, a byddai hyn yn sicrhau na allai sefyllfaoedd tebyg godi eto.

Credir ei bod yn rhaid diogelu iechyd a lles gweithlu presennol ysgolion wrth newid categorïau iaith ysgolion sy'n bodoli eisoes a'u cefnogi gan y gall hyn fod yn fater sensitif a olyga fod staff unigol yn gallu wynebu sefyllfaoedd annifyr. Mae ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb awdurdod lleol yw hyn yn lleihau'r posibilrwydd.

Cwestiwn 13 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn yr adran hon ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (fydd yn gosod cyfeiriad i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol)?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Nodwyd ymateb i hyn eisoes.

Credir bod angen ystyried ymwybyddiaeth iaith yn rhan o hyn hefyd, gan gomisiynu adnoddau e.e. ffilmiau byrion neu deithiau gan fodolau rôl. Mae angen i ddisgyblion a'r gweithlu wybod pam y maent yn dysgu'r iaith – beth yw ei phwysigrwydd yn genedlaethol ac ar lefel unigolyn, cyn eu cymell i ddysgu'r iaith ei hun. Gwelir bod ein myfyrwyr yn dal i wynebu agweddau negyddol ynghylch cynnwys y Gymraeg yn eu gwersi o du rhai athrawon ac y byddai ymwybyddiaeth iaith o gymorth i leihau'r agweddau hyn.

Mae angen ystyried y darlun cyfan h.y. yr hyn sy'n digwydd yn allgyrsiol neu'n gymdeithasol yn ogystal ag o fewn gwersi. Dylai Gweinidogion Cymru lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg gyda gweledigaeth 10-mlynedd a dyletswydd i'w adolygu a'i gyhoeddi ym mhob tymor Seneddol.

Cwestiwn 14 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Nodwyd eisoes bod angen ystyried y ddarpariaeth benodol sydd ar gael i'r gweithlu addysg a sut y gellir ymestyn y ddarpariaeth bresennol gan gynnwys hyfforddiant y Cynllun Sabothol a darpariaeth ar-lein Dysgu Cymraeg, er mwyn cyrraedd y targedau cenedlaethol.

Cwestiwn 15 – Ydych chi'n cytuno bod y deilliannau a nodir ym mharagraff 82 yn parhau i gynnig ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Deilliannau 1 i 7 yn rhoi ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol.
Ateb Cwestiwn 10 yn ategu Deilliant 5.

--

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Gwelwyd bod y CSCA yn aml wedi bod yn geidwadol ac y byddai adolygiad o'r math yn rhoi ffocws clir i awdurdodau addasu a mireinio targedau yn unol â chynllun cenedlaethol.

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credir mai cynllunio strategol ar lefel genedlaethol yw'r ffordd o symud y nodau a'r targedau hyn ymlaen ac y byddai targedau penodol ar gyfer awdurdodau lleol yn ategu hyn. Credir bod lle i ystyried natur y cymunedau y mae'r awdurdodau'n eu gwasanaethau ac y byddai targedau mwy uchelgeisiol mewn ardaloedd a fu'n draddodiadol Gymraeg yn addas. Croesewir paragraffau 88-90 a'r ystyriaeth a roddir i ddemograffeg gymdeithasol y Gymraeg. Gwelir bod rôl allweddol hefyd i dystiolaeth y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo'n briodol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credir bod angen gwerthuso'r hyn a nodir ar hyn o bryd, gan nodi cyfleoedd i wella ond hefyd er mwyn rhannu arfer dda.
--

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunir â'r egwyddor ac eto mae angen cydweithio er mwyn galluogi awdurdodau lleol er mwyn gwneud hyn. Dechreuwa ar lefel ysgolion eu hunain er mwyn sicrhau bod gweithio ym maes addysg yn ddeniadol, ac wedyn dylid ystyried cynlluniau marchnata drwy gyfnod myfyrwyr yn eu prifysgolion. Dylid ymestyn yr ymgyrchoedd hyn i'r myfyrwyr hynny sydd y tu allan i Gymru hefyd, yn astudio yn Lloegr.

Dylid ehangu'r ymwybyddiaeth o gyfleoedd i newid gyrfa o fewn llwybrau rhan-amser e.e. llwybr TAR y Brifysgol Agored, a all gynnig cyfleoedd i'r rheiny â phrofiad bywyd ehangach i newid gyrfa. Gellid cryfhau'r berthynas rhwng y llwybrau rhan-amser hyn a'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ar draws Cymru.

Cwestiwn 20 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau) a chynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Ydw, bydd hyn yn cynyddu atebolrwydd ac yn rhoi modd i awdurdodau lleol fesur eu cynnydd yn erbyn eraill hefyd.

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Ydw, a bod hynny mewn amgylchedd teg a chadarnhaol a allai fwydo i gynllun gweithredu pendant er mwyn gosod camau penodol ar gyfer cynnydd.

Cwestiwn 22 – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?

--

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

<p>Yn sicr, mae angen hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg a hynny efallai gan ddefnyddio rhieni di-Gymraeg sydd eisoes wedi gwneud y dewisiadau hyn fel lladmeryddion. Dylid ystyried demograffeg ardal wrth wneud hyn hefyd.</p> <p>Mae angen comisiynu gwaith ymchwil pellach i ddewisiadau rhieni sy'n siarad Cymraeg/sydd wedi bod drwy'r system addysg Gymraeg, i beidio â dewis addysg Gymraeg i'w plant.</p> <p>Bydd angen ystyried carfan ehangach hefyd - pobl yn eu hugeiniau cynnar sydd eto i ddod yn rhieni, mam-guod a thad-cuod a all ddylanwadu ar y broses.</p>

Cwestiwn 24 – Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

Sylwadau ategol

<p>Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol wedi'u hategu â thystiolaeth i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.</p> <p>Darparu tystiolaeth, efallai drwy astudiaethau achos, o fanteision y Gymraeg lle nad oes Cymraeg yn y cefndir.</p> <p>Tystiolaeth er mwyn cefnogi a chyfiawnhau'r deilliannau ieithyddol.</p> <p>Ystyried trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd lle nad yw'r rhai a aeth drwy addysg Gymraeg yn dewis addysg Gymraeg i'w plant.</p>

Cwestiwn 25 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yn sicr, ystyrir bod hon yn elfen allweddol er mwyn i hwyrddyfodiaid allu bod yn rhan lawn o'n cymdeithas a chyfrannu ati yn hytrach na newid ei natur ieithyddol. Rhaid ystyried demograffeg ardaloedd penodol yn hyn o beth a sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn yr ardaloedd hynny lle mae'r canrannau wedi gostwng yn sylweddol e.e. ardaloedd o Sir Gaerfyrddin.

Gwelir pwysigrwydd hyrwyddo'r ddarpariaeth hon wrth wella dealltwriaeth a gwybodaeth am y system addysg yng Nghymru i fewnfudwyr.

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Gweler yr ymateb i gwestiwn 25.

Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Gallaf weld manteision hyn, ac mae angen sicrhau bod y ddarpariaeth yn hygyrch i bawb. Er hynny, dylid gochel rhag cynnig model un sefydliad sy'n rhwystro gallu eraill i gyfrannu'n greadigol at y gefnogaeth drwy amrywiol ffyrdd, ac mae hynny'n cynnwys nifer sy'n gwneud gwaith da mewn amrywiol sefydliadau ar hyn o bryd.

Dylai'r wybodaeth am y gefnogaeth fod ar gael mewn un man i bawb, ond dydy hynny ddim yn golygu bod y gefnogaeth ei hun wedi'i chanoli mewn un man.

Cwestiwn 28 – Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 29 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwbl allweddol

Cwestiynau o'r ddogfen 'Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Cwestiwn 30 – Ydych chi'n cytuno gyda'n dehongliad ni o'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau? A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwmplas y newidiadau ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 31 – Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 32 – Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 33 – A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cwestiynau gorfodol

Cwestiwn 34 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Rhagwelir effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd angen cynllunio er mwyn cyfathrebu'r negeseuon yn glir ac yn mewn modd cynhwysol.

Gwelir y bydd nodi cynnydd yn swyddogol ym mhob ysgol ac ym mhob awdurdod lleol yn fodd elfennol o gynyddu niferoedd yn ogystal â chynllunio niferoedd dysgwyr a'r gweithlu.

Cwestiwn 35 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Fel y nodwyd eisoes, mae angen ystyried y cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i addysg ffurfiol hefyd.

Rhaid sicrhau bod negeseuon clir o ran cydraddoldeb a chynhwysiant, fel ag y nodir yn y papur gwyn, yn amlwg mewn cyfathrebu a thrafodaethau er mwyn hyrwyddo'r neges fod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru.

Gellir rhagweld pryderon ymhlith aelodau o'r gweithlu nad ydynt yn medru'r Gymraeg ar hyn o bryd. Wrth uwchsgilio a chynyddu gallu'r gweithlu presennol i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd rhaid gweithio'n ofalus gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynllunio'n sensitif.

Cwestiwn 36 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

